Prifysgol Abertawe
Swansea University

100
1920~2020

# ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

2018–2019

Prifysgol Abertawe, Campws Parc Singleton,
Abertawe, SA2 8PP, UK

+44 (0)1792 205678

**www.abertawe.ac.uk**

Dyluniwyd gan **IconCreativeDesign.com**



# Cynnwys

02. Neges gan yr Is-Ganghellor
03. Y Brifysgol a'i Gwaith
04. Y Sefydliad
05. Gwaith y Brifysgol
06. Datganiad Budd y Cyhoedd
08. Rheolaeth Ariannol a Risg
11. Prif Risgiau ac Ansicrwydd
12. Dangosyddion Perfformiad Allweddol
20. Adroddiad Ariannol y Sefydliad
24. Llywodraethu Corfforaethol
26. Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor
28. Adroddiad yr Archwilwyr i Gyngor Prifysgol Abertawe
32. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu
38. Datganiadau Ariannol

# NEGES YR IS-GANGHELLOR

Mae'n bleser mawr gennym allu adrodd ar flwyddyn arall o lwyddiant ym Mhrifysgol Abertawe. Mae balchder mawr gennym, yn ein pobl ac yn ein cenhadaeth, wrth fyfyrio ar ein cyflawniadau niferus yn 2018-19.

Mae gan ein Prifysgol lawer i'w ddathlu, ac rydym yn eithriadol o falch o'r ganmoliaeth fawr a'r gwobrau niferus a ddyfarnwyd i ni yn ystod y cyfnod hwn. Enillon ni wobr Prifysgol y Flwyddyn Cymru unwaith eto yng Nghanllaw i Brifysgolion The Times a'r Sunday Times, yn ogystal ag ennill gwobr Prifysgol y Flwyddyn y DU yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni. Rydym yn arbennig o falch o ennill yr ail wobr, oherwydd ein myfyrwyr ni a bleidleisiodd amdani, a dyma'r ail fuddugoliaeth i ni yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'n gymeradwyaeth ysgubol o'n hymdrechion i sicrhau bod profiad y myfyrwyr wrth wraidd ein huchelgeisiau. Yng nghyd-destun cystadleuaeth gynyddol i recriwtio myfyrwyr, rydym yn deall hefyd bwysigrwydd cydnabyddiaeth allanol fel hyn fel ffordd o'n hamlygu ein hunain drwy ein rhagoriaeth.

Rydym yn falch o'n safle ardderchog yn y tablau o'r sefydliadau gorau, sy'n seiliedig ar ein gallu i gyflawni ymchwil o safon fyd-eang ac addysgu o'r radd flaenaf sy'n cael ei arwain gan ymchwil, ac efallai'r dystiolaeth orau o hyn yw ein Dyfarniad Safon Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA). Rydym hefyd yn sicrhau amgylchedd croesawgar a chefnogol i staff a myfyrwyr ac yn parhau i fod yn un o brifysgolion gorau'r DU o ran rhagolygon cyflogadwyedd graddedigion - ni yw'r bumed brifysgol orau yn y DU yn ôl The Guardian. Mae astudio ym Mhrifysgol Abertawe yn ysbrydoli ein myfyrwyr ac yn eu paratoi i gael gyrfaoedd llwyddiannus ac ystyrlon, pa lwybr bynnag maent yn ei ddewis.

Yn 2018-19, enillodd Prifysgol Abertawe gategori rhyngwladol Gwobrau WhatUni hefyd. Mae hyn yn bwysig, oherwydd ein bod yn wynebu'r un ansicrwydd byd-eang y mae pob sefydliad addysg uwch arall yn ei wynebu, boed mewn cysylltiad â Brexit neu'r gystadleuaeth gynyddol yn y farchnad ddatblygol y tu allan i'r UE. Rydym yn hyderus yn ein gallu i wynebu'r heriau rhyngwladol hyn yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn parhau'n optimistaidd ac yn uchelgeisiol, ac rydym yn ymrwymedig i gynyddu ein presenoldeb rhyngwladol lle mae partneriaeth wrth wraidd popeth a wnawn. Mae creu cydweithrediadau cynaliadwy, sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall, â phartneriaid allweddol yn gonglfaen ein strategaeth ryngwladol o hyd, wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar bartneriaethau o ansawdd uchel sy'n creu cyfleoedd ar gyfer symudedd staff a myfyrwyr, addysgu ar y cyd a chydweithrediadau ymchwil.

Yn ogystal â'n safbwynt byd-eang, rydym yn ymrwymedig o hyd i'n gwreiddiau daearyddol a hanesyddol yma yn Abertawe ac yng Nghymru. Rydym yn angerddol am ein heffaith yn ein cymuned ac mae'r ffocws yn parhau ar ehangu ein cyfleusterau, ein harbenigedd a'n perthnasoedd byd-eang er mwyn ysgogi mewnfuddsoddiad a chreu twf busnes newydd. Rydym yn aelodau balch a gweithgar o'r cymunedau lle'r ydym yn astudio, yn gweithio ac yn byw, ac ymdrechwn i geisio cyfleoedd i'w cefnogi. Rydym wedi sefydlu digwyddiadau cymunedol, megis Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe, sydd bellach yn ei thrydedd flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth, gan ddenu dros 7000 o ymwelwyr eleni yn unig.

Mae ein holl lwyddiannau, pob gwobr a chlod, o ganlyniad i waith caled ac ymrwymiad ein staff rhagorol, ac egni a doniau ein myfyrwyr disglair. Wrth gwrs, nid oedd 2018-19 heb ei heriau i'n Prifysgol, ac rydym yn parhau i fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd. Wrth i ni agosáu at ein Canmlwyddiant, rydym yn falch o'n gwytnwch, wrth i ni edrych ymlaen at y dyfodol ac achub ar gyfleoedd newydd â'r un egni, angerdd ac ymrwymiad i wneud gwahaniaeth. Rydym yn hyderus bod ein llwyddiant, heddiw ac yn y gorffennol, yn sylfaen ragorol y gallwn barhau i adeiladu arni a ninnau ar drothwy ein hail ganrif.

Yr Athro Paul Boyle
Is-ganghellor Prifysgol Abertawe



# Y BRIFYSGOL A'I GWAITH

Mae Prifysgol Abertawe'n sefydliad uchelgeisiol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil a chanddi dros 20,000 o fyfyrwyr.

Noda gweledigaeth y Brifysgol:

**'Gyda'n gilydd, byddwn yn trawsnewid bywydau a rhagolygon, drwy ddarparu amgylchedd academaidd rhagorol sy'n cydbwyso rhagoriaeth o ran addysgu ac ymchwil o safon fyd-eang ag ysgogi effaith ar sail cydweithio rhanbarthol a byd-eang effeithiol'.**

## CENHADAETH

Yn wir i weledigaeth ei sylfaenwyr diwydiannol ym 1920, bydd Prifysgol Abertawe:

a) Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, drwy addysgu o'r ansawdd uchaf sy'n cael ei arwain gan ymchwil ac ymarfer, ac sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang wedi'u haddysgu a'u paratoi i gyflawni'n rhagorol, yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

b) Darparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, gydag ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, sy'n seiliedig ar gydweithredu byd-eang, ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.

c) Defnyddio ein cryfderau addysgu ac ymchwil, ein cydweithrediad â diwydiant a'n cyrhaeddiad byd-eang i ysgogi twf economaidd, i feithrin ffyniant, i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru ac i gyfrannu at iechyd, hamdden a lles ei dinasyddion.

## STRATEGAETH

Mae ymagwedd strategol Prifysgol Abertawe wedi cael ei datblygu ymhellach yn y blynyddoedd diweddar wrth i ni agosáu at ein canmlwyddiant yn 2020. Mae diwygiad diweddaraf ein Cynllun Strategol wedi'i danategu drwy weithio at a chyflawni 20 amcan strategol sy'n cwmpasu pedair thema allweddol: Profiad y Myfyrwyr, Ymchwil o Safon Fyd-eang, Twf Economaidd ac Effaith ar Gymdeithas a Galluogwyr Strategol. Mae'r Cynllun Strategol yn ystyried llwyddiannau allweddol hyd yn hyn ac yn darparu dadansoddiad manwl o sut byddwn yn cyflawni ein nodau yn y cyfnod hyd at 2020.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gynllunio twf uchelgeisiol mewn meysydd academaidd allweddol a ddatblygir mewn partneriaeth â diwydiant a'r llywodraeth ac a fydd yn ysgogi datblygiad Economi Wybodaeth yn ne-orllewin Cymru. Nodwedd alluogi allweddol y cynlluniau hyn yw'r gweithgarwch adeiladu a datblygu parhaus ar Gampws y Bae, sy'n cyfuno ymchwil a datblygu diwydiannol ag ymchwil academaidd.

Mae'r Uwch-dîm Rheoli a'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r cynlluniau, y rhagolygon a'r canlyniadau ariannol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Bwriad y warged a gyllidebir yw ariannu rhaglen gyfalaf y Brifysgol, a gwella'r isadeiledd a'r ystâd yn benodol.

# Y SEFYDLIAD

Corff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, sydd â rheolaeth gyffredinol dros y Brifysgol a'i materion, ei dibenion a'i swyddogaethau. Aelodau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019 oedd:-

| Rôl | Aelod | Diwedd Tymor |
|---|---|---|
| Canghellor | Yr Athro'r Fonesig Jean Thomas (o 1 Ionawr 2018) | 31 Rhagfyr 2021 |
| Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor | Syr Roger Jones | 10 Medi 2019 |
| Dirprwy Ganghellor<br>Cadeirydd Gweithredol y Cyngor | Syr Roderick Evans | Mawrth 2021<br>Tan benodiad newydd |
| Is-ganghellor | Yr Athro Paul Boyle (o 26 Gorffennaf 2019)<br>Yr Athro Richard B Davies (tan 26 Gorffennaf 2019) | Gorffennaf 2024 |
| Dirprwy Is-gangellorion<br>(uchafswm o 3) | Yr Athro Iwan Davies<br>Yr Athro Hilary Lappin-Scott<br>Yr Athro Steve Wilks | 31 Awst 2019<br>5 Rhagfyr 2018<br>31 Rhagfyr 2022 |
| Chwe aelod a benodir gan ac o blith aelodau Cyngor Prifysgol Abertawe<br>(*Daw eu tymor i ben yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Llys ar gyfer y sesiwn dan sylw) | Mr Gordon Anderson<br>Dr Kerry Beynon<br>Mrs Jill Burgess<br>Yr Athro Kathryn Monk<br>Ms Elin Rhys<br>Mrs Gaynor Richards | Ionawr 2021 (2019/20*)<br>Ionawr 2020 (2018/19*)<br>Ionawr 2022 (2020/21*)<br>Ionawr 2022 (2020/21*)<br>Ionawr 2020 (2018/19*)<br>Ionawr 2022 (2020/21*) |
| Pedwar aelod o'r staff academaidd a benodir gan ac o blith aelodau'r Senedd,<br>(2 â statws Athro a 2 aelod staff nad ydynt yn athrawon) | Dr Suzanne Darra (o 20 Tachwedd 2018 tan 29 Mawrth 2019)<br>Mr Michael Draper (tan 29 Mawrth 2019)<br>Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus (o 1 Rhagfyr 2018)<br>Yr Athro Joy Merrell<br>Dr Ryan Murphy (o 4 Gorffennaf 2019)<br>Dr Siân Rees (o 4 Gorffennaf 2019)<br>Yr Athro Jane Thomas (tan 30 Tachwedd 2018)<br>Dr Tessa Watts (tan 3 Awst 2018) | 30 Tachwedd 2022<br>18 Hydref 2020<br>3 Gorffennaf 2023<br>3 Gorffennaf 2023 |
| 6 aelod wedi'u cyfethol gan Gyngor Prifysgol Abertawe | Dr Debra Evans-Williams (tan 9 Mai 2019)<br>Mr John Mahoney (tan 9 Tachwedd 2018)<br>Mrs Rosemary Morgan<br>Dr Angus Muirhead<br>Mr Bleddyn Phillips | 10 Medi 2020<br>20 Mawrth 2020<br>Mai 2021 |
| 2 o aelodau staff Prifysgol Abertawe a enwebwyd gan Undebau Llafur cydnabyddedig y Brifysgol | Dr Simon Hoffman<br>Mrs Val Mills (tan 23 Mehefin 2019) | 10 Medi 2019 |
| Llywydd Undeb y Myfyrwyr | Mr Gwyn Aled Rennolf<br>Ms Grace Hannaford (o 1 Gorffennaf 2019) | 30 Mehefin 2019<br>30 Mehefin 2020 |
| Swyddog Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr | Ms Sophie Hargreaves<br>Ms Ffion Davies (o 1 Gorffennaf 2019) | 30 Mehefin 2019<br>30 Mehefin 2020 |

Yr Uwch-dîm Rheoli sy'n gyfrifol am weithrediadau'r Brifysgol, ac mae'n cynnwys:

**Yr Is-ganghellor** – yr Athro Paul Boyle (o 26 Gorffennaf 2019) Yr Athro Richard B Davies (tan 26 Gorffennaf 2019)
**Y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu** (Gweithgareddau Gweinyddu a Chymorth) Mr Andrew Rhodes
**Uwch-ddirprwy Is-ganghellor** (Yr Ystâd, Rhyngwladoli a'r Gyfraith) - yr Athro Iwan Davies (tan 31 Awst 2019)
**Uwch-ddirprwy Is-ganghellor** (Ymchwil ac Arloesi a'r Ysgol Reolaeth, y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a Meddygaeth) – Yr Athro Hilary Lappin-Scott (tan 31 Awst 2019)
**Dirprwy Is-ganghellor** (Profiad y Myfyrwyr a Gwyddoniaeth a Pheirianneg) – Yr Athro Steve Wilks
**Dirprwy Is-ganghellor** (Academaidd a'r Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) – Yr Athro Martin Stringer
**Cyfarwyddwr Cyllid** – Mr Rob Brelsford-Smith (tan 16 Gorffennaf 2019)
**Cyfarwyddwr Cyllid dros dro** – Mr Rob Eastwood (o 16 Gorffennaf 2019)

Y Bwrdd Rheoli yw pwyllgor uwch-reoli a gweithredol y Brifysgol, sy'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Cofrestrydd, Penaethiaid y Colegau, y Cyfarwyddwr Cyllid a chynrychiolwyr y Cyfarwyddwyr gweithrediadau gweinyddol allweddol. Mae'r corff hwn yn fforwm ar gyfer cydweithio i roi cyfeiriad i'r sefydliad cyfan ac ar gyfer cynghori'r Is-ganghellor ac uwch-swyddogion eraill y Brifysgol ar faterion sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.



# GWAITH Y BRIFYSGOL

Mae Prifysgol Abertawe wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall, gan gadarnhau ei lle ymysg y 30 o brifysgolion gorau yn y DU a'r un orau yng Nghymru. Cyflawnodd y Brifysgol ei safle uchaf erioed yn nhablau o brifysgolion y DU, sef y 30ain safle o 120 o sefydliadau yn ôl Canllaw i Brifysgolion Da 2019 The Times a'r Sunday Times Mae'r Canllaw hefyd wedi cydnabod y perfformiad rhagorol hwn drwy ddyfarnu **Prifysgol y Flwyddyn Cymru 2019** i ni a'r ail le ym **Mhrifysgol y Flwyddyn y DU 2019**. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cadw ei lle yn y tablau o'r 300 o'r prifysgolion gorau yn y byd, gan ymddangos yn y band 251-300 unwaith eto eleni yn Nhablau Prifysgolion y Byd Times Higher Education 2017-18.

Ym mis Mehefin 2018, dyfarnwyd **Safon aur am Ragoriaeth Addysgu** i'r Brifysgol, y safon uchaf bosib yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) Llywodraeth y DU, gan atgyfnerthu ein statws fel un o brifysgolion gorau'r DU. Barnodd panel o arbenigwyr annibynnol fod myfyrwyr o bob cefndir sy'n astudio yn Abertawe yn cyflawni canlyniadau rhagorol yn gyson (cyflogaeth ar lefel raddedig neu astudiaethau pellach) a bod tystiolaeth amlwg o gymorth wedi'i bersonoli o ansawdd uchel ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gofal bugeiliol.

Mae sicrhau bod ein graddedigion wedi'u paratoi ar gyfer byd gwaith wrth wraidd ein holl weithgarwch ac roedd hyn yn elfen bwysig o ddyfarnu safon Aur y FfRhA i ni. Drwy Academi Cyflogadwyedd Abertawe, rydym yn darparu ymagwedd gyson ar draws y Brifysgol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hysbrydoli a'u meithrin a'u bod yn datblygu'n raddedigion cyflogadwy. Mae ein hymagwedd yn llwyddiannus iawn ac, yn Arolwg o Ymadawyr Addysg Uwch 2018 (DLHE), cyflawnodd y Brifysgol ei pherfformiad gorau erioed o ran y gyfran o'i graddedigion sy'n sicrhau cyflogaeth ar lefel raddedig neu le ar raglen astudio pellach - 86% - sy'n golygu bod y **Brifysgol yn gydradd 5ed yn y DU yn ôl Canllaw i Brifysgolion 2020 The Guardian**. Roedd y Brifysgol ar y brig yn y DU hefyd am gyflogaeth gyffredinol ac astudio pellach.

Roedd yn bleser mawr gan y Brifysgol ei bod wedi'i chynnwys ar restr fer Gwobrau Times Higher Education 2018 am **wobr nodedig, Prifysgol y Flwyddyn**, Gwobr Arloesedd Technegol y Flwyddyn a Gwobr Teilyngdod DataPoints THE am ein Rhagoriaeth Ymchwil.

Mae canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 yn cadarnhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol, barhaus a gwerthfawr, yng Nghymru a'r DU, ac yn rhyngwladol hefyd. Mae'r canlyniadau, sy'n ddilys tan yr asesiad nesaf yn 2021, yn dangos bod Prifysgol Abertawe wedi cyflawni'r cynnydd mwyaf ymhlith sefydliadau sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil - gan ddringo o'r 52ain safle yn y DU yn 2008 i'r **26ain safle yn 2014**. Bernir bod y Brifysgol ymhlith yr 20 sefydliad gorau yn y DU am ymchwil mewn saith pwnc: Meddygaeth (2il), Saesneg (7fed), Biowyddoniaeth (8fed), Peirianneg (12fed), Gwaith Cymdeithasol (14eg), Gwyddor Chwaraeon (15fed) a Chyfrifiadureg (18fed). Yn gyffredinol mae'r Brifysgol wedi dyblu'r nifer o ymchwilwyr sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang a bernir bod 90% o ymchwil y Brifysgol bellach yn rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gyflawni lefelau uchel o foddhad myfyrwyr. Yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2019 (a benderfynir ar sail pleidlais myfyrwyr), **dyfarnwyd y teitl Prifysgol y Flwyddyn i Brifysgol Abertawe**, yr ail dro mewn chwe blynedd i ni ennill y categori hwn. Daeth Abertawe yn y pump uchaf hefyd yn y categorïau Rhyngwladol, Ôl-raddedig, Cyrsiau a Darlithoedd, Rhagolygon Swyddi, a Chlybiau a Chymdeithasau. Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr diweddaraf am 2019, roedd 88% o fyfyrwyr yn fodlon ar eu profiad cyffredinol, gan roi'r Brifysgol yn **gydradd 10fed yn y DU**. O'r meysydd pwnc a ddarperir gan y Brifysgol, mae 16 ar y rhestr o'r 10 cwrs gorau yn y DU o ran boddhad cyffredinol.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ehangu a gwella'r ddau gampws er mwyn darparu ymchwil, addysgu a chyfleusterau o safon fyd-eang i fyfyrwyr a staff. Ar Gampws y Bae, mae canolfan ymchwil IMPACT, sy'n rhan o Goleg Peirianneg y Brifysgol yn agor yng ngaeaf 2019 yn sgil buddsoddiad gwerth £35 miliwn. Mae'r cyfleuster yn cynnig 80 o swyddfeydd un person, lle i 150 o ymchwilwyr mewn hyb, a lle i gyd-leoli 50 o gydweithredwyr diwydiannol ac academaidd. Ym mis Hydref 2018, dechreuodd addysgu yn 'Y Coleg', Prifysgol Abertawe, pan agorwyd adeilad academaidd newydd a phreswylfa ar gyfer 411 o fyfyrwyr. Mae'r Coleg yn cynnig llwybrau academaidd ym Mhrifysgol Abertawe sy'n arwain at raddau israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r ymagwedd unigryw hon at addysg yn trawsnewid myfyrwyr rhyngwladol yn raddedigion Prifysgol Abertawe ac yn ddysgwyr gydol oes.

Ar Gampws Parc Singleton, mae'r pwyslais wedi bod ar ddiweddaru'r adeiladau presennol yn hytrach nag ehangu. Mae'r gwaith wedi parhau i weddnewid y tu mewn i Adeilad Talbot er mwyn darparu swyddfeydd staff, mannau dysgu ac addysgu a lle i Undeb y Myfyrwyr a'r Sefydliad Dur a Metelau. Mae cynlluniau ar gyfer gwaith yn Adeilad Talbot yn y dyfodol yn cynnwys creu'r Twnnel Gwynt a Hediad Adar. Oddi ar y campws, mae cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol wedi'i sefydlu yn Ysbyty Singleton ac rydym wedi cymryd prydles o le yn y Ganolfan Ddinesig.

[1] Ranking based on those institution that are included in the Sunday Times Good University Guide who provide a wide range of degree courses.

# DATGANIAD BUDD Y CYHOEDD

## Daeth y Brifysgol yn elusen gofrestredig ym mis Medi 2010 a'i rhif elusen yw 1138342

Diffinnir y fframwaith cyfansoddiadol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo yn y Siarter a'r Statudau. Amcanion y Brifysgol yw hybu dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, ac ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae gweledigaeth a nodau ac amcanion strategol y Brifysgol wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Brifysgol. Wrth bennu ac adolygu amcanion y Brifysgol a'i gweithgareddau, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw priodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fudd y cyhoedd, ac yn benodol yr atodiad i'w arweiniad i fudd y cyhoedd ar hyrwyddo addysg.

## Bydd Prifysgol Abertawe'n parhau i gynyddu ansawdd, graddfa ac effaith ei hymchwil o safon fyd-eang

Mae Prifysgol Abertawe wedi datblygu ei gallu ymchwil yn sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Gwnaed buddsoddiadau drwy'r broses cynllunio busnes ac arallgyfeirio adnoddau i'r meysydd academaidd mwyaf llwyddiannus. Bu pwyslais cryf ar ddatblygu gweithgareddau ymchwil rhyngddisgyblaethol. Cyflawnodd y Brifysgol y naid uchaf ymhlith sefydliadau'r DU sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 – o safle 52 yn 2008 i safle 26 ac, wrth wneud hynny, cyflawnwyd ein nod o fod ymysg y 30 o sefydliadau gorau yn y DU am bwyslais ar ymchwil erbyn 2017. Bernir bod y Brifysgol bellach ymhlith yr 20 sefydliad gorau yn y DU am ymchwil mewn saith pwnc. Yn gyffredinol, mae nifer yr ymchwilwyr o fri rhyngwladol yn y Brifysgol wedi dyblu. Mae 90% o ymchwil y Brifysgol bellach wedi'i raddio'n rhagorol yn rhyngwladol neu'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae'r canlyniadau hyn yn ddilys tan adolygiad nesaf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil i'w gynnal yn 2021.

Rydym yn parhau i feithrin ein cymuned ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac i ehangu meysydd rhagoriaeth presennol y Brifysgol drwy ddatblygu ein clystyrau ymchwil ymhellach. Byddwn yn cyflawni hyn ar sail ein llwyddiant wrth sicrhau incwm o grantiau ymchwil. Mae'r clystyrau hyn yn dod ag academyddion nodedig, ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ynghyd mewn cyfleusterau â chyfarpar o'r radd flaenaf. Bydd yr ymagwedd hon yn ein galluogi i gynhyrchu ymchwil arloesol, trawsddisgyblaethol, cydweithredol, â chysylltiadau rhyngwladol sy'n cyflawni effaith uchel.

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn ymwneud â thros 30 o brosiectau cydweithredol a ariennir gan yr UE ac a ysgogir gan anghenion academaidd a diwydiannol; mae'r prosiectau hyn, sy'n werth dros £130m, yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio arnom nawr a rhai byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol er enghraifft: creu diwydiant dur ar gyfer yr 21ain ganrif (Canolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC); datblygu cyfleoedd economaidd mewn ynni adnewyddadwy (SEACAMS 2) a galluogi lefelau uwch o arloesi busnes yng ngweithgynhyrchu'r dyfodol (ASTUTE).

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn parhau i greu amgylchedd ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang, ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Mae datblygiad Campws y Bae'n parhau i gael effaith economaidd sylweddol ar y rhanbarth. Hyd at 2017 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), roedd dros 11,000 o bobl wedi gweithio ar Gampws y Bae, dyfarnwyd 272 o gontractau i gwmnïau Cymreig a chrëwyd neu achubwyd 170 o swyddi. Dros gyfnod o ddeng mlynedd, disgwylir i Gampws y Bae gyfrannu £3 biliwn yn y rhanbarth a chreu 10,000 o swyddi.

## Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu o'r radd flaenaf sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, a ysgogir gan ymarfer, ac sy'n cynhyrchu graddedigion â meddylfryd byd-eang wedi'u haddysgu ac yn barod i gyflawni'n rhagorol, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mae'r Brifysgol yn addysgu mwy nag 20,000 o fyfyrwyr ar draws amrywiaeth eang o feysydd pwnc, gan gyfrannu tua £162m y flwyddyn at yr economi leol. Mae'r addysg hon yn datblygu myfyrwyr yn academaidd ac yn cynyddu eu rhinweddau arweinyddiaeth a rhyngbersonol, gan eu paratoi i chwarae rôl lawn ac effeithiol mewn cymdeithas.

Fel rhan o'n hymdrech i ddarparu profiad rhagorol yn gyson i'n myfyrwyr, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr ac yn eu cynnwys yn llawer o'r penderfyniadau allweddol ar draws y Brifysgol. Mae swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o lawer o bwyllgorau a grwpiau strategol, gan helpu i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ein myfyrwyr.

Mae dwy o academïau'r Brifysgol, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA) ac Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) yn cefnogi ein hymdrech i ddarparu'r profiad gorau posib i'n myfyrwyr. Mae ADAA yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer gwella asesu ac adborth, addysg a arweinir gan ymchwil, cyflwyno cyrsiau ar-lein ac ymchwil addysgegol. Mae ACA yn bartneriaeth rhwng y Brifysgol, ei myfyrwyr, cyflogwyr lleol, entrepreneuriaid, y cynghorau sgiliau sector a'r llywodraeth i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, arloesi ac entrepreneuraidd a dod yn 'raddedigion byd-eang'.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod rhaid i'w gweithgarwch ym maes ehangu mynediad i addysg uwch ddarparu'r sgiliau lefel uwch sy'n cynnig gwelliant hirdymor i gyfleoedd bywyd unigolion o gefndiroedd amrywiol. Mae gan y Brifysgol hanes gwych o gyflawni yn y maes hwn ac mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) yn darparu pwyslais ar ehangu mynediad ar draws y campws. Amcan SAILS yw cynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol (megis y rhai o ardaloedd cyfranogiad isel neu ddifreintiedig, plant sydd wedi bod mewn gofal, myfyrwyr anabl) elwa o addysg uwch, gan sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn y cymorth academaidd a bugeiliol sydd ei angen arnynt i lwyddo yn eu hastudiaethau.

Adlewyrchir ein hymagwedd at ddarparu'r profiad gorau i'n myfyrwyr drwy ddyfarnu'r Safon Aur i ni yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn ddiweddar, ein gwobr gyntaf yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni? 2019 a'n safle yn y pum prifysgol orau yn y DU o ran Rhagolygon Graddedigion (Canllaw Cyflawn i Brifysgolion 2020 The Guardian).

## Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i gyflawni ein strategaeth ymgysylltu dinesig a'n cenhadaeth, ac i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sy'n cyfoethogi ein rhanbarth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn chwarae rôl weithredol yn y rhanbarth a chymunedau lleol, gan gynnig gwasanaethau helaeth ym meysydd iechyd, treftadaeth, cydweithio cymunedol, allgymorth ac ymgysylltu, gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, lleoliadau hanesyddol a gwirfoddoli. Gwelir crynodeb o'n darpariaeth, ein gwaith a'n prosiectau yn y meysydd hyn isod.

Enillodd **Academi Iechyd a Llesiant** Prifysgol Abertawe 'Wobr Effaith Gymdeithasol a Chymunedol' The Guardian yn 2018 ac mae'n cynnig gwasanaethau iechyd fforddiadwy a hyblyg i'r gymuned leol.

Rydym yn cyflawni rôl weithredol, wedi'i thargedu, wrth ehangu mynediad a chefnogi addysg mewn ysgolion, drwy ein Rhaglen Allgymorth Ysgolion a Cholegau. Mae enghreifftiau'n cynnwys **Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru**, a ariennir ar y cyd gan y Brifysgol a Llywodraeth Cymru. Mae'n ymdrechu i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau a dangynrychiolir yn ne-orllewin Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae ein prosiect **Technocamps** wedi bod yn darparu gweithdai cyfrifiadura rhyngweithiol mewn ysgolion er mwyn ysbrydoli, cymell ac ysgogi pobl ifanc drwy ddarparu naw awr ar gyfartaledd o weithdai yn 97% o'r ysgolion uwchradd gwladol yng Nghymru.

Mae Ysgol Addysg newydd Prifysgol Abertawe, sy'n rhan o Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, yn gartref i **Adran Addysg Barhaus Oedolion (AABO)** y Brifysgol. Mae AABO yn darparu cyfleoedd dysgu rhan-amser, hyblyg, i oedolion ledled rhanbarth de-orllewin Cymru, gan gynnwys darlithoedd unigol, sesiynau rhagflas, cyrsiau wedi'u hachredu, tystysgrifau, diplomâu a graddau BA (Anrhydedd). Mae'r rhain i gyd yn cael eu haddysgu gan staff arbenigol a chyfeillgar ym Mhrifysgol Abertawe sy'n credu'n gryf ym manteision dysgu gydol oes. Mae arbenigwyr mewn cyngor i oedolion yn helpu dysgwyr i ddewis y cwrs iawn ac yn rhoi gwybod iddynt am y cymorth ariannol sydd ar gael.

Cenhadaeth y S**efydliad Diwylliannol yng Ngholeg y Celfyddydau a'r Dyniaethau** yw "hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant i bawb, meithrin partneriaethau a gwella profiad y myfyrwyr". Mae'n cydlynu gwyliau a digwyddiadau, Gwobr Ryngwladol Dylan Thomas, Canolfan Richard Burton, Creadigrwydd, Cerddoriaeth a Chreu Taliesin.

Mae **Canolfan y Celfyddydau Taliesin** a'r **Ganolfan Eifftaidd** ar Gampws Singleton a'r **Neuadd Fawr** ar Gampws y Bae yn cynnal ac yn cefnogi digwyddiadau, arddangosfeydd, cynadleddau, seremonïau graddio a digwyddiadau cymunedol ar gyfer y gymuned leol, y cyhoedd a phlant ysgol lleol. Bob blwyddyn, rydym yn croesawu tua 100,000 o ymwelwyr i'n canolfannau. Mae gan y Brifysgol hefyd gyfleusterau Llyfrgell a chwaraeon cynhwysfawr, sydd ar gael i'r gymuned leol.

Mae **Discovery**, sefydliad a arweinir gan fyfyrwyr, yn cydlynu cannoedd o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli ar oddeutu 20 prosiect cymunedol dan arweiniad myfyrwyr. Eu hamcan yw mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a thlodi drwy weithio gyda phlant ac oedolion ag anableddau ac anawsterau dysgu, a darparu cyfeillgarwch a chymorth ymarferol i bobl hŷn.

Yn 2018, cynhaliodd y Brifysgol ei hail **Ŵyl Wyddoniaeth Abertawe** sydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol. Cynhelir yr ŵyl hon am ddim gan y Brifysgol ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, ac mae'n parhau i ddenu ac ymgysylltu ag ymwelwyr o bob oedran ac i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr. Mae ein gweithgareddau Gwyddoniaeth yn y Gymuned hefyd yn cael hwb drwy barhad ein harddangosfa **Oriel Science**. Nod Oriel yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio pynciau STEM ar lefel addysg uwch. Ers ei agor, mae 16,000 o aelodau'r cyhoedd a 900 o fyfyrwyr ysgol wedi ymweld ag Oriel. Dywedodd 95% eu bod wedi dysgu mwy am wyddoniaeth a 98% y byddent yn argymell Oriel i'w ffrindiau.

# RHEOLAETH ARIANNOL A RISG

## LLIF ARIAN

Yn unol â Pholisi Rheoli Trysorfa'r Brifysgol, yr amcan buddsoddi yw cyflawni'r elw gorau wrth gadw risg i isafswm. Rheolir adneuon tymor byr y Brifysgol gan Royal London Asset Management ar hyn o bryd, ac mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi yn monitro perfformiad y cwmni yn ôl meincnodau a bennwyd ymlaen llaw.

## POLISI BENTHYCA

Yn ystod y flwyddyn, tynnodd y Brifysgol fenthyciad arall o £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop i lawr.

Ochr yn ochr â'i pholisïau i sicrhau ffynonellau cyllid, mae'r Brifysgol hefyd yn ofalus i reoli'r risgiau a lleihau'r anhyblygrwydd cynhenid sydd ynghlwm wrth drefniadau hirdymor. Wrth fenthyca, mae'r Brifysgol yn glynu wrth yr egwyddorion canlynol:

- Osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn cyfraddau llog efallai na fyddent yn fforddiadwy
- Cadw hyblygrwydd i ailstrwythuro benthyciadau a risg o ran cyfraddau llog yn annibynnol ar ei gilydd
- Gwneud y gorau o'r fantais sy'n deillio o gyfamod y Brifysgol
- Cadw cwantwm y ddyled i lefel y gellir ei gwasanaethu'n ddiogel drwy lif arian o weithrediadau sy'n gyson â chyfamodau bancio'r Brifysgol
- Strwythuro'r proffil ad-daliadau cyffredinol i gyfyngu'r pwysau ar y llif arian.

Mae'n ofynnol bod Prifysgol Abertawe'n cydymffurfio â chyfamodau ariannol a gyhoeddwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB) yn unol â'r Cytundeb Ariannol mewn perthynas â gwasanaethu dyledion, geriad a hylifedd. Mae rheolwyr y Brifysgol yn monitro cydymffurfiaeth â chyfamodau'n rheolaidd wrth ystyried buddsoddiadau perthnasol yn seilwaith y Brifysgol.

## CYDYMFFURFIAETH Â CHYFAMODAU BANCIO

Mae tri chyfamod perfformiad ynghlwm wrth fenthyciadau'r Brifysgol gan Fanc Buddsoddi Ewrop a chaiff y rhain eu mesur bob blwyddyn gan gyfeirio at y datganiadau ariannol. Am y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2019, torrwyd y cyfamod ynghylch cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu o'i gymharu â chostau gwasanaethu dyledion. Mae'r Brifysgol yn disgwyl unioni'r sefyllfa hon yn y blynyddoedd i ddod yn sgil camau gweithredu a gymerwyd i wella ei pherfformiad ariannol.

Bu'r Brifysgol yn cynnal trafodaethau â Banc Buddsoddi Ewrop ynghylch torri'r cyfamod ac, o ganlyniad, rhoddwyd hawlildiad mewn perthynas â'r diffyg cydymffurfiaeth hwn.

## RHEOLI ARIAN A HYLIFEDD

Derbynnir cyfran uchel o incwm y Brifysgol yn unol ag amserlen sefydlog a hysbysir ymlaen llaw. Mae hyn yn caniatáu i'r Brifysgol gynnal gwarged ac i osgoi dibynnu ar fenthyciadau tymor byr. Fel arfer, caiff gwarged arian parod ei throsglwyddo i adneuon y farchnad arian. Hyd yn hyn, caiff y rhan fwyaf o'r rhain eu rheoli mewn cyfrif cilyddol ar ran y Brifysgol, ac mae eu proffil aeddfedrwydd yn cydbwyso risg ac adenillion, gan adlewyrchu cynlluniau buddsoddi cyfalaf y Brifysgol.

Gan ystyried yr ansicrwydd presennol yn y marchnadoedd, mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro ei hadneuon yn weithredol.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol gronfeydd ar gyfer darparu ysgoloriaethau, gwobrau a gweithgareddau gwaddoledig eraill. Mae'r cronfeydd hyn wedi'u buddsoddi mewn cymysgedd o ecwitïau, stociau a bondiau cyfnod penodol, arian parod ac offerynnau eraill sydd wedi'u cynllunio i gynhyrchu incwm gan hefyd ddiogelu gwerth sylfaenol y cyfalaf.

## CAETHWASIAETH FODERN

### Cyflwyniad gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Ceir amrywiaeth o ffurfiau arni, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae pob un o'r rhain ag elfen gyffredin, sef un parti'n amddifadu unigolyn neu unigolion o'u rhyddid er mwyn cam-fanteisio arnynt er mantais bersonol neu fasnachol.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a hwn yw ein datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Gorffennaf 2020.

### Strwythur y Sefydliad

Mae Prifysgol Abertawe'n sefydliad uchelgeisiol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, a chanddi fwy nag 20,000 o fyfyrwyr a bron 3,000 o aelodau staff.

Corff llywodraethu'r Brifysgol, y Cyngor, sydd â rheolaeth gyffredinol dros y Brifysgol a'i materion, ei dibenion a'i swyddogaethau.

Yr Uwch-dîm Rheoli sydd â chyfrifoldeb gweithredol am y Brifysgol. Bwrdd Rheoli'r Brifysgol yw uwch-bwyllgor rheoli a gweithredol y Brifysgol, sy'n cynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, Penaethiaid y Colegau, y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a dau gynrychiolydd y Cyfarwyddwyr gweithrediadau gweinyddol allweddol. Mae'r corff hwn yn fforwm ar gyfer cydweithio i roi cyfeiriad i'r sefydliad cyfan ac ar gyfer cynghori'r Is-ganghellor ac uwch-swyddogion eraill y Brifysgol ar faterion sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau penodol.



### Cadwyni Cyflenwi

Mae gan Brifysgol Abertawe gadwyn gyflenwi fyd-eang, gan gynnwys amrywiaeth o gyflenwyr sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Brifysgol.

### Ein polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl

Yn ystod y flwyddyn i fis Gorffennaf 2019, gweithredodd y Brifysgol mewn modd cyfrifol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i weithio tuag at sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn rhan o'n cadwyni cyflenwi neu unrhyw ran o'n busnes.

Gan ystyried y ddyletswydd i adrodd ar fesurau i sicrhau na cheir caethwasiaeth yn unrhyw ran o'n busnes na'n cadwyn gyflenwi, byddwn yn adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer y gweithle i asesu eu heffeithiolrwydd wrth nodi a mynd i'r afael â materion caethwasiaeth fodern. Mae cyhoeddi'r datganiad hwn hefyd yn un o ofynion Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, yr ymrwymodd i Brifysgol iddo, ochr yn ochr â holl brifysgolion Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Mae Prifysgol Abertawe'n gweithio i gyflawni ymrwymiadau'r Côd Ymarfer, sy'n cynnwys annog ein cyflenwyr i fabwysiadu'r Côd hefyd.

### Prosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer caethwasiaeth a masnachu pobl

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymo i ystyried prosesau diwydrwydd dyladwy yn ein busnes ac ym musnes ein cadwyn gyflenwi. Byddwn yn rhoi systemau ar waith i nodi, asesu a monitro meysydd risg posib yn ein cadwyni cyflenwi er mwyn lliniaru'r risgiau hynny.

Mae Prifysgol Abertawe'n aelod o'r Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW). Mae HEPCW yn cydweithio'n effeithiol â Chonsortia Pwrcasu Prifysgolion y DU. Mae'r rhaglen contractio ar y cyd yn darparu portffolio cydweithredol cynhwysfawr ac aeddfed, sy'n cynnwys rhai o'r categorïau risg uchel, megis cyflenwadau swyddfa, nwyddau labordy, cyfarpar TGCh a rhai gwasanaethau ystadau (rheoli cyfleusterau).

Mae Prifysgol Abertawe'n cydweithio â HEPCW, ac â'r Consortia Pwrcasu Addysg Uwch, i nodi'r cyflenwyr yn y categorïau risg uchel hyn, mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl, ac mae wedi ymrwymo i Gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru.

Mae prosesau tendro Prifysgol Abertawe'n gofyn bod ceiswyr yn cadarnhau cydymffurfiaeth â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn rhan orfodol o'r broses ddethol, ac mae'n ofynnol i holl gyflenwyr newydd y Brifysgol gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

### Lliniaru Risg drwy ofyn i gyflenwyr lynu wrth ein gwerthoedd

Mae llawer o'n cyflenwyr yn y categorïau risg uwch hyn wedi ymrwymo i Gôd Sylfaen y Fenter Masnachu Moesegol ac mae Consortia Pwrcasu Prifysgolion y DU yn gweithio i ddarbwyllo gweddill y cyflenwyr yn y categorïau hyn i ymuno â nhw. Mae Côd Sylfaenol y Fenter Masnachu Moesegol yn seiliedig ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac mae'n gôd ymarfer llafur a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n mynnu cydymffurfiaeth â'r canlynol:

1. Dewisir cyflogaeth yn wirfoddol;
2. Caiff rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i gydfargeinio eu parchu;
3. Mae'r amodau gweithio'n ddiogel ac yn hylan;
4. Ni ddefnyddir llafur plant;
5. Telir cyflog byw;
6. Nid yw'r oriau gwaith yn ormodol;
7. Nid oes unrhyw wahaniaethu;
8. Darperir cyflogaeth reolaidd; a
9. Ni chaniateir triniaeth lem neu greulon.

Yn ogystal, Prifysgol Abertawe oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill statws Masnach Deg. Mae Adran Arlwyo ar y Campws y Brifysgol yn ymrwymo'n gryf i gynaliadwyedd, Masnach Deg a phrynu'n lleol. Mae Masnach Deg yn ymwneud â phrisiau gwell, amodau gwaith da, cynaliadwyedd lleol a thelerau masnach teg i ffermwyr a gweithwyr yn y byd datblygol.

Mae Prifysgol Abertawe'n aelod cysylltiol swyddogol o Gonsortiwm Hawliau'r Gweithwyr, sefydliad annibynnol ac anwleidyddol sy'n monitro hawliau llafur ac yn cydweithio â gweithwyr, sefydliadau anllywodraethol a phrifysgolion a cholegau eraill i wella amodau gweithwyr yn y diwydiant dillad.

Drwy ymgysylltu â Chonsortiwm Hawliau'r Gweithwyr, mae'r Brifysgol yn cytuno i fabwysiadu côd ymddygiad i ystyried materion megis cyflog, oriau gwaith, taliadau goramser, rhyddid i ymgysylltu, iechyd a diogelwch yn y gweithle, hawliau menywod, llafur plant a llafur dan orfod, aflonyddu a thrais yn y gweithle a pheidio â gwahaniaethu.

Prifysgol Abertawe oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i ymuno ag Electronics Watch. Mae Electronics Watch yn sefydliad monitro annibynnol sy'n helpu prynwyr y sector cyhoeddus i gydweithio er mwyn sicrhau parch at hawliau llafur a safonau diogelwch yn y ffatrïoedd sy'n cynhyrchu'r galedwedd TGCh maent yn ei phrynu. Drwy weithredu ar sail aelodaeth, mae Electronics Watch yn caniatáu i brynwyr y sector cyhoeddus rannu cost monitro cyflenwyr â'r rhwydwaith cyfan o aelodau cyswllt a chydlynu gweithgarwch y diwydiant. Felly, mae Prifysgol Abertawe'n cydweithio ag Electronics Watch i ddatblygu tryloywder yn ei chadwyn gyflenwi i gynnwys cyflenwyr haen is, er mwyn lliniaru'r risg o arferion cyflogaeth anfoesegol, er enghraifft, mwynau gwrthdaro a gyflenwir i weithgynhyrchwyr nwyddau electronig.

Yn olaf, yn ystod 2019/20, chwaraeodd Prifysgol Abertawe rôl weithredol yng nghynllun peilot offeryn Equiano. Mae Equiano'n offeryn asesu cam-drin hawliau dynol yn y gadwyn gyflenwi. Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Abertawe'n adolygu ein canlyniadau o'r asesiad ar y cyd â'r cyflenwyr perthnasol.

### Hyfforddiant

I sicrhau dealltwriaeth uchel o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi ac yn ein sefydliad, bwriadwn gynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern. Bydd yr hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth hwn wedi'i addasu ar gyfer lefelau a rolau perthnasol yn y Brifysgol. Drwy adnabod staff sy'n ymwneud â'r broses brynu, darperir hyfforddiant i gynyddu ymwybyddiaeth ac i helpu wrth nodi risgiau yn y gadwyn gyflenwi berthnasol, gan ddefnyddio adnoddau priodol sydd ar gael, er enghraifft, Côd Llywodraeth Cymru, llenyddiaeth hyfforddiant ayb.

Bydd staff caffael yn cwblhau hyfforddiant ar-lein 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi neu gwrs cyfwerth.

### Ein heffeithiolrwydd wrth rwystro caethwasiaeth a masnachu pobl

Mae Prifysgol Abertawe wedi dechrau integreiddio Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn ein System Rheoli Amgylcheddol ISo14001 (2015) a'n cofrestr gyfreithiol. Bydd hyn yn:

- cefnogi datblygiad dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Brifysgol gyfan;
- darparu sicrwydd a gaiff ei archwilio'n allanol; a
- mecanwaith i gynyddu ymwybyddiaeth drwy gymuned gyfan y Brifysgol.
- ystyried cymalau cyfreithiol priodol mewn contractau er mwyn rheoli a monitro cyflenwyr yn fwy effeithiol.

### Ein Llywodraethu a'n Polisïau

Mae'r polisi hwn wrth wraidd ein gweithgareddau caffael a chafodd ei ddatblygu ar y cyd gan y timau Caffael a Chyfrifoldeb Corfforaethol.

### Camau pellach ar gyfer 2019/20

Yn ystod y flwyddyn ariannol newydd, bydd y Brifysgol yn archwilio'r cyfle i adolygu ein Polisi Chwythu'r Chwiban gan staff, ac yn ystyried ffyrdd o ehangu'r cwmpas i gynnwys y gadwyn gyflenwi mewn perthynas â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

Ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn adolygu ei Strategaeth Caffael a bydd yn rhoi arferion caffael cynaliadwy a moesegol ar waith, a fydd yn cynnwys gofynion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys:

- Strwythur llywodraethu
- Asesiadau risg sy'n gysylltiedig â chategorïau
- Asesu cyflenwyr

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddatblygu dealltwriaeth ac effeithiolrwydd yn y maes hwn ymhellach, â'r nod o wella tryloywder yn ein cadwyni cyflenwi a gweithredu mewn modd cyfrifol tuag at y bobl sy'n gweithio ynddynt.

Mae timau Caffael a Chynaliadwyedd Prifysgol Abertawe'n parhau i gydweithio er mwyn datblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth mewnol ac i gryfhau polisïau a gweithdrefnau mewnol yn unol â safonau ISO.

Bydd Prifysgol Abertawe'n parhau i asesu meysydd risg allweddol yn ein portffolio o wariant ac yn datblygu strategaethau i liniaru risgiau posib.



# PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Diffiniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o risg yw, "elfen o ansicrwydd sy'n effeithio ar benderfyniadau gweithredol a chanlyniadau cynlluniedig. Gall ffactorau risg fod yn gyfleoedd cadarnhaol neu'n fygythiadau negyddol." Yn y bôn, y ffactorau sy'n ein helpu neu yn ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion. Drwy adnabod risgiau allweddol i gyflawni ein hamcanion, gallwn ystyried a chynllunio ein hymateb iddynt. Mae hyn yn ein helpu i leihau effaith 'digwyddiadau annisgwyl' ac i ymateb yn fwy effeithiol i gyfleoedd posib.

Mae rheoli risg yn broses sy'n rhoi sicrwydd bod amcanion yn fwy tebygol o gael eu gwireddu, bod pethau niweidiol yn llai tebygol o ddigwydd a bod pethau buddiol yn fwy tebygol o gael eu cyflawni.

Ym Mhrifysgol Abertawe, gwelir bod risgiau ar wahanol lefelau:

- Lefel gorfforaethol neu strategol
- Lefel Coleg / Ysgol
- Lefel Uned Gwasanaethau Proffesiynol (PSU)
- Lefel Prosiect

Caiff risgiau ar lefel gorfforaethol neu strategol eu rheoli gan Uwch-dîm Rheoli'r Brifysgol drwy Gofrestr Risg y Brifysgol. Er mai cyfrifoldeb yr uwch-reolwyr yw'r risgiau, caiff y camau gweithredu lliniarol eu rhaeadru i lawr y Brifysgol. Yn ogystal, mae gan bob Coleg ac Uned Gwasanaethau Proffesiynol yn y Brifysgol eu Cofrestr Risg eu hunain i sicrhau bod risgiau i'w hamcanion nhw yn cael eu nodi ac y cymerir camau gweithredu i reoli risg. Hefyd disgwylir i bob prosiect nodi a lliniaru risgiau yn barhaus.

Mae'r Uwch-dîm Rheoli yn adolygu Cofrestr Risg y Brifysgol bob chwarter. Disgwylir i Golegau ac Unedau Gwasanaethau Proffesiynol adolygu eu Cofrestri Risg yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli ac i liniaru risgiau i'w hamcanion yn barhaus.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, bu Cofrestr Risg y Brifysgol yn monitro 17 o risgiau gweithredol strategol a sylweddol. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2019, barnwyd bod dau o'r rhain yn peri risg uchel o 9 (Uchel, Uchel) -

- Recriwtio Myfyrwyr – Bydd ansicrwydd ynghylch niferoedd myfyrwyr cartref a rhyngwladol o ganlyniad i BREXIT, newidiadau i gyfreithiau treth rhyngwladol a chystadleuaeth gynyddol yn effeithio ar ein gallu i gyflawni'r rhagamcanion o ran niferoedd myfyrwyr, gan effeithio ar ein cynaliadwyedd ariannol

- Gwytnwch Systemau TG – bydd diffyg gwytnwch yn y systemau TG yn peri colled drychinebus o wasanaeth ar adeg hollbwysig yn y cylch recriwtio, e.e. clirio

Mae risgiau ychwanegol a gofnodir ar Gofrestr Risgiau'r Brifysgol yn cynnwys pensiynau, yr ystâd, cydymffurfiaeth, dysgu ac addysgu, ymchwil, profiad y myfyrwyr, arweinyddiaeth, iechyd a diogelwch ac Adroddiad Augar.

# DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) i gynorthwyo wrth fonitro gweithgarwch y Brifysgol o'i gymharu â'i hamcanion. Nodir rhai o'r prif ddangosyddion isod. Lle bynnag y bo modd, dyfynnir ffigurau 2018-19 ond, mewn rhai achosion, bydd y data diweddaraf sydd ar gael gan HESA yn cyfeirio at 2017-18.

| Myfyrwyr | |
|---|---|
| **Niferoedd** | **Canlyniadau** |
| • 17,387 o geisiadau (18-19)<br>• 18,500 o israddedigion (18-19)<br>• 3,696 o ôl-raddedigion (18-19)<br>• 18% o fyfyrwyr tramor (18-19) | • Mae 88% o'r myfyrwyr yn fodlon (Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2019)<br>• Enillodd 80.4% radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch (18-19)<br>• Sicrhaodd 86% swydd ar lefel raddedig neu astudiaeth bellach o fewn chwe mis ar ôl graddio (DLHE 2018) |

| Staffio | |
|---|---|
| **Cyfanswm staff (CALl 17-18)**<br>3,290 | **Staff academaidd (CALl 17-18)**<br>1,510 |

**Perfformiad**

**30 Gorau'r DU am Ragoriaeth Ymchwil** – safle 26 yn REF 2014 (cynnydd o 26 safle)
**Safon Aur am Ragoriaeth Addysgu** yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2018

**Prifysgol y Flwyddyn –** Gwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2019

**Tablau Prifysgolion y DU**
Yn y 30 gorau (30ain) yn ôl Canllaw i Brifysgolion Da The Times 2019
Safle 31 yng Nghanllaw i Brifysgolion 2020 The Guardian
Safle 35 yn y Canllaw Cyflawn i Brifysgolion 2020

**Tablau Prifysgolion y Byd**
462 yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2019
251-300 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2019



## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL MYFYRWYR

| DPA | Llwyddiant graddau myfyrwyr israddedig – y gyfran sy'n ennill dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch | |
|---|---|---|
| **Yn Mesur** | Llwyddiant wrth gefnogi myfyrwyr yn eu profiad dysgu | |
| **Blwyddyn** | **2017-18** | **2018-19** |
| | 77.8% | 80.6% |

**Ffynhonnell:** Data Mewnol

| DPA | Cyflogadwyedd Graddedigion | |
|---|---|---|
| **Yn Mesur** | Llwyddiant wrth gefnogi graddedigion i ennill swydd ar lefel broffesiynol neu i symud ymlaen i astudiaethau pellach o fewn chwe mis ar ôl graddio | |
| **Blwyddyn** | **2016-17** | **2017-18** |
| | 82.6% | 85.6% |

**Ffynhonnell:** Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch 2017 a 2018

| DPA | Boddhad Myfyrwyr | | |
|---|---|---|---|
| **Yn Mesur** | Boddhad myfyrwyr â'u profiad ac ansawdd yr addysgu | | |
| **Blwyddyn** | **Ansawdd Addysgu (%)*** | **Profiad y Myfyrwyr (%)*** | **Boddhad Cyffredinol (%)*** |
| 2018-19 | 81.1* | 82.3* | 88.3 |
| 2017-18 | 80.8* | 81.4* | 89.3 |

**Ffynhonnell:** Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2018 a 2019

| DPA | Cymhareb Staff / Myfyrwyr | | |
|---|---|---|---|
| **Yn Mesur** | Nifer o fyfyrwyr am bob aelod o'r staff academaidd | | |
| **Blwyddyn** | **Nifer o fyfyrwyr** | **Nifer o staff academaidd** | **Cymhareb Myfyrwyr/Staff** |
| 2017-18 | 17,135 | 1,110 | 15.4 |
| 2016-17 | 16,389 | 1,062 | 15.4 |

**Ffynhonnell:** Yn seiliedig ar ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a ddefnyddir yn Nhablau Cynghrair y DU

## AMRYWIAETH – MYFYRWYR

| DPA | Canran o fyfyrwyr o gefndir difreintiedig (ehangu mynediad) | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Llwyddiant wrth ddenu grwpiau a dangynrychiolir i addysg uwch | |
| Blwyddyn | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (%) | Cymdogaethau Cyfranogiad Isel (%) |
| 2017-18 | 34.4% | 10.1% |
| 2016-17 | 34.9% | 9.8% |

Ffynhonnell: Mesurau Cenedlaethol CCAUC

| DPA | Cyfran o Fyfyrwyr Gwrywaidd a Benywaidd | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Cydbwysedd rhwng y rhywiau | |
| Blwyddyn | Gwryw | Benyw |
| 2017-18 | 53.6% (10,950) | 46.4% (9,465) |
| 2016-17 | 53.5% (10,205) | 46.5% (8,905) |

Ffynhonnell: Data HESA

| DPA | Cyfran o Fyfyrwyr ag anabledd | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Cyfraddau cyfranogi myfyrwyr anabl yn y Brifysgol | |
| Blwyddyn | Anabledd | Dim anabledd |
| 2017-18 | 11.7% (2,390) | 88.3% (18,025) |
| 2016-17 | 10.8% (2,075) | 89.2% (17,090) |

Ffynhonnell: Data HESA

| DPA | Ethnigrwydd (Myfyrwyr o'r DU) – Cyfran o fyfyrwyr BAME | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Cyfraddau cyfranogiad myfyrwyr du a lleiafrifoedd ethnig | |
| Blwyddyn | BAME | Ddim yn BAME |
| 2017-18 | 2,050 (12.4%) | 14,525 (87.6%) |
| 2016-17 | 1,815 (11.6%) | 13,835 (88.4%) |

Ffynhonnell: Data HESA

| DPA | Myfyrwyr Rhyngwladol | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Gallu i ddenu myfyrwyr rhyngwladol / hyrwyddo amrywiaeth myfyrwyr | |
| Blwyddyn | Y DU | Y tu allan i'r DU |
| 2017-18 | 16,765 (82.1%) | 3,650 (17.9%) |
| 2016-17 | 15,650 (81.7%) | 3,510 (18.3%) |

Ffynhonnell: Data HESA



## AMRYWIAETH – STAFF

| DPA | Rhyw | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran staff | |
| Blwyddyn | Gwryw | Benyw |
| 2017-18 | 1,620 (47.6%) | 1,905 (52.4%) |
| 2016-17 | 1,445 (45.9%) | 1,705 (54.1%) |

Ffynhonnell: Data HESA (cyfwerth â pherson llawn)

| DPA | Menywod mewn rolau uwch | |
|---|---|---|
| Yn Mesur | Staff benywaidd yn yr Uwch-dîm Rheoli – metrig mewnol | |
| Blwyddyn | 2017-18 | 2018-19 |
| | 1 (14.3%) | 1 (14.3%) |

## NIFEROEDD MYFYRWYR

| Pob myfyriwr | Cartref | Rhyngwladol | Cyfanswm | Llwyth Cartref CALI* | Llwyth Tramor CALI* | Cyfanswm Llwyth CALI* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Israddedigion Amser Llawn | 13,820 | 2,993 | **16,813** | 11,729 | 1,643 | **13,372** |
| Israddedigion Rhan-amser | 1,557 | 130 | **1,687** | 184 | | **184** |
| Ôl-raddedigion a Addysgir Amser Llawn | 1,018 | 677 | **1,695** | 855 | 614 | **1,469** |
| Ôl-raddedigion a Addysgir Rhan-amser | 1,003 | 45 | **1,048** | 290 | 1 | **291** |
| Ôl-raddedigion Ymchwil Amser Llawn | 629 | 168 | **797** | 571 | 150 | **721** |
| Ôl-raddedigion Ymchwil Rhan-amser | 134 | 22 | **156** | 67 | 6 | **73** |
| Myfyrwyr Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd nad ydynt wedi'u hariannu drwy'r Cynllun Busnes | 1,485 | 3 | **1,488** | 1,485 | 3 | **1,488** |
| | **19,646** | **4,038** | **23,684** | **15,181** | **2,417** | **17,598** |

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL ARIANNOL

| **DPA** | **Cymhareb Gwasanaethu Dyledion - Y Sefydliad** |
|---|---|
| **Yn Mesur** | Y gyfran o incwm gros sy'n cael ei gwario ar gyllido dyledion (y prifswm a llog) |
| **Blwyddyn** | |
| 2018-19 | 3.12% |
| 2017-18 | 3.66% |

**Sylw:** Mae'r gostyngiad yn y gymhareb gwasanaethu dyledion yn cynrychioli ad-dalu benthyciad bach yn llawn yn ystod 2018. Tynnwyd benthyciad newydd o £60 miliwn i lawr yn ystod 2019, ond ni wnaed ad-daliadau a chronnwyd swm bach o log yn unig. Ymrwymwyd i drefniant consesiwn gwasanaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn; fodd bynnag, roedd ei werth yn gymharol isel.

| **DPA** | **Cymhareb Geriad Net - Sefydliad** |
|---|---|
| **Yn Mesur** | Cyfran cyllid ar sail dyledion i ecwiti |
| **Blwyddyn** | |
| 2018-19 | 95.05% |
| 2017-18 | 54.73% |

**Sylw:** Mae'r gymhareb geriad net wedi cynyddu oherwydd benthyciad ychwanegol (£60 miliwn) a threfniant consesiwn gwasanaeth ychwanegol (£6 miliwn) ynghyd â chynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer y cynllun pensiwn USS (£58 miliwn) o ganlyniad i newid yn y cyfraniadau disgwyliedig.

| **DPA** | **Diwrnodau o asedau hylifol net o'u cymharu â gwariant – y sefydliad** |
|---|---|
| **Yn Mesur** | Hylifedd - y gallu i dalu costau'r Brifysgol |
| **Blwyddyn** | **Diwrnodau** |
| 2018-19 | 85 |
| 2017-18 | 80 |

**Sylw:** Nod y Brifysgol yw cadw digon o asedau hylifol am o leiaf 35 diwrnod o wariant.

| **DPA** | **Hylifedd - Cyfunol** |
|---|---|
| **Yn Mesur** | Cost gwasanaethu dyledion ar gyfer y flwyddyn fel canran o'r llif arian o weithgareddau gweithredu |
| **Blwyddyn** | |
| 2018-19 | (59.86)% |
| 2017-18 | 24.04% |

**Sylw:** Gostyngodd y llif arian o weithgareddau gweithredu yn sylweddol yn ystod 2019. Roedd hyn oherwydd cynnydd sylweddol yn ein dyledwyr o ganlyniad i grantiau taladwy i'r Brifysgol, ynghyd â gostyngiad yn y warged ariannol a gynhyrchwyd gan weithgareddau gweithredu yn hytrach na gweithgareddau buddsoddi ac ariannu.

## YMCHWIL


| **DPA** | **Prosiectau ymchwil newydd** | **Twf mewn grantiau ymchwil a ddyfarnwyd** |
|---|---|---|
| **Yn Mesur** | Nifer y prosiectau ymchwil newydd | Gwerth contractau newydd |
| **Blwyddyn** | **Gwirioneddol** | **Gwirioneddol (£m)** |
| 2018-19 | 330 | 63.1 |
| 2017-18 | 367 | 73.7 |




## DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL YSTADAU

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn deillio o rifyn diweddaraf (2017-2018) adroddiad data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.


### Cyfanswm cost cyfredol ailadeiladu'r ystâd gyfan





### Cyfanswm costau rheoli eiddo yr aethpwyd iddynt ar gyfer yr ystâd gyfan



### Cyfanswm lle a ddefnyddir fel canran gan amrywiaeth o gategorïau gan y Brifysgol gyfan





### Cyfanswm lle a ddefnyddir mewn metrau gan amrywiaeth o gategorïau gan y Brifysgol gyfan





DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol 2018-19
www.abertawe.ac.uk 

### Cyflwr Adeiladau gan ddefnyddio Methodoleg RICS




A : Fel Newydd
B : Mewn cyflwr da yn weithredol, yn ddiogel ac yn dangos mân arwyddion o ddirywiad yn unig
C : Yn weithredol ond angen gwaith atgyweirio/adnewyddu sylweddol
D : Anweithredol/risg sylweddol o fethiant neu dorri i lawr

### Defnydd o ynni ar gyfer y safle cyfan




# ADRODDIAD ARIANNOL Y SEFYDLIAD

## RHAGARWEINIAD

Mae Datganiadau Ariannol 2019, ynghyd â ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol, wedi cael eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifyddu FRS 102 a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Addysg Uwch.

## INCWM





Bu cynnydd o 14.7% mewn incwm o £307 miliwn i £352 miliwn rhwng 2018 a 2019. Er y gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol yn y flwyddyn mewn incwm ymchwil, cafwyd cynnydd o 1.5% hefyd yn y ffioedd dysgu a chynnydd o 18.4% mewn grantiau rheolaidd gan gyrff ariannu. Cafwyd cynnydd o 83.1% mewn incwm ymchwil yn y flwyddyn, o £52 miliwn i £95 miliwn. Fodd bynnag, cafodd swm o £32 miliwn - o ryddhau incwm grantiau cyfalaf - ei gynnwys mewn ymchwil yn 2019. Cafwyd gostyngiad o £6 miliwn mewn incwm arall oherwydd i'r Brifysgol dderbyn taliad unigol (£5 miliwn) yn 2018 ac ni dderbyniwyd breindaliadau pellach ar ôl 2018 (£2 filiwn).




## GWARIANT

Cafwyd cynnydd o 33% o ran gwariant yn 2019, gan gynyddu o £296 miliwn i £394 miliwn.





Mae dadansoddiad pellach o wariant isod, sy'n dadansoddi costau fesul categori gweithgarwch (cyn llog a dibrisiant).




Caiff incwm y Brifysgol ei wario yn bennaf ar weithrediadau o ddydd y dydd y Brifysgol. Caiff unrhyw symiau sy'n weddill eu hail-fuddsoddi er mwyn darparu cyfleusterau o safon uchel i'r Brifysgol gyfan. Yn y pen draw, mae'r ail-fuddsoddi hwn yn cynyddu'r tâl dibrisio o flwyddyn i flwyddyn. Cydnabuwyd tâl unigol yn ystod y flwyddyn o £58 miliwn mewn perthynas ag ariannu diffyg y cynllun USS. Nid oedd y tâl hwn yn ymwneud â thaliad ariannol a wnaed, yn hytrach roedd yn gofnod cyfrifyddu yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y cyfraniad go iawn a disgwyliadau'r gorffennol.

## YMCHWIL




Cafwyd cynnydd o 83% mewn ymchwil yn 2019, o £52 miliwn i £95 miliwn. Mae ymchwil (Cyrff llywodraethol yr UE) yn cynnwys dau grant cyfalaf a ryddhawyd, gwerth £32 miliwn, sef buddsoddi, nid incwm gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o gategorïau ymchwil wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cynnydd o 41% yng nghyllid y Cyngor Ymchwil, i fyny o £12.7 miliwn i £17.9 miliwn.

## CYMYNRODDION A RHODDION

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Brifysgol nifer o roddion a chymynroddion, gan gynnwys cyfraniadau at ysgoloriaethau a'r Brifysgol yn gyffredinol.

## Y FANTOLEN A CHRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn yn bennaf oherwydd y cynnydd unigol yn y ddarpariaeth ar gyfer y cynllun pensiwn USS, sef £58 miliwn. Ac eithrio'r ddarpariaeth ar gyfer y cynllun pensiwn USS, mae cryfder y fantolen wedi parhau'n sefydlog, gan gynyddu ychydig iawn (1%).

Cynyddodd asedau sefydlog yn y flwyddyn o ganlyniad i fuddsoddi'n barhaus yn yr ystâd, prynu cyfarpar newydd a chynnydd yn nifer y trefniadau consesiwn gwasanaeth.

Cynyddodd asedau cyfredol oherwydd cynnydd mewn arian i'w dderbyn a chynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynnydd mewn arian i'w dderbyn o ganlyniad yn bennaf i grant cyfalaf sylweddol taladwy i'r Brifysgol, ynghyd â nifer o hawliadau grant ymchwil roeddem yn disgwyl eu derbyn. Cynyddodd y balans yn y banc yn sgil tynnu i lawr benthyciad arall gwerth £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd cyfanswm y credydwyr am y flwyddyn yn sefydlog, ar ôl caniatáu am dynnu i lawr y benthyciad ychwanegol gwerth £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop. O'r holl gredydwyr ar 31 Gorffennaf 2019, dosbarthwyd £191.5m i'r categori dyledus o fewn blwyddyn (2018: £81.1 miliwn). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r ffordd yr ymdriniwyd â benthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop fel rhai sy'n ad-daladwy o fewn blwyddyn (£111.3 miliwn), ar ôl i'r Brifysgol dorri'r cyfamod bancio. Ers hynny, mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi ildio ei hawliad mewn perthynas â'r diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfamod a phe bai'r hawlildiad hwn wedi'i dderbyn ar 31 Gorffennaf 2019, byddai'r £108.8 miliwn wedi cael ei ailddosbarthu fel credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Y ddarpariaeth pensiynau gyfunol ar 31 Gorffennaf 2019 oedd £148.6 miliwn (2018: 77.1m). Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd o ganlyniad i ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), sef £58.4 miliwn yn sgil diffyg cytundeb ar brisiad mis Mawrth 2018 ar ddyddiad y fantolen. Wedi hynny, cytunwyd ar hwn a rhagwelir y bydd £39 miliwn o'r ddarpariaeth hon yn cael ei ryddhau yn y flwyddyn i 31 Gorffennaf 2020. Ymdriniwyd â hyn fel digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl dyddiad y fantolen.

Darparwyd ar gyfer £13 miliwn ychwanegol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS).



## RHEOLAETH ARIANNOL

Mae rheolaeth ariannol y Brifysgol yn dod yn fwy cymhleth o ganlyniad i'r trefniadau cyllido ac ariannu. Oherwydd dulliau ariannu megis y benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop, ynghyd â threfniadau consesiwn gwasanaeth sylweddol, mae'r Brifysgol yn rhoi sylw cynyddol i reolaeth ariannol ac, yn benodol, i reoli llifoedd arian, wrth iddi geisio bodloni cyfamodau ariannol, optimeiddio hylifedd a lefelau geriad ac ymdrechu i gyflawni sefydlogrwydd ariannol.

## RHAGOLWG

Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi yn ei hystâd, er bod hyn ar lefel is nag yn y blynyddoedd diweddar, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ei sefyllfa ariannol yn y dyfodol. Mae'n gwneud hynny yn ystod cyfnod o ansicrwydd parhaus (gan gynnwys Brexit) a gostyngiadau yn lefel y cyllid a fydd ar gael i'r sector yn y blynyddoedd i ddod.

O ystyried y cefndir economaidd ehangach, mae cyfnodau heriol ar y gorwel i'r Brifysgol. Er hynny, gyda rheolaeth a gweithlu cryf mae'r Brifysgol yn hyderus y bydd yn gwneud cynnydd llwyddiannus yn ei chynlluniau strategol ac wrth gyflawni ei hamcanion. Oherwydd ei thwf a'i chynnydd yn nhablau cynghrair y sector yn ddiweddar, mae'r Brifysgol mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau hyn.

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Mae ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu wedi'u hamlinellu yn y Siarter Atodol a'i Statudau ategol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2007. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Yn ôl y Siarter a'r Statudau, mae'n ofynnol i'r Brifysgol fod â thri chorff ar wahân, pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol, ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i ymgymryd â'i fusnes yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth), ac mae'n parhau i ymdrechu i gydymffurfio â'r Côd Llywodraethu Addysg Uwch a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Rhagfyr 2014 ac a ddiwygiwyd gan Bwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol yn 2018.

Wrth ystyried y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019, gall y Cyngor adrodd bod gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â phob elfen o'r Côd Ymarfer Llywodraethu yn ddieithriad. Mae'r Brifysgol yn adolygu effeithiolrwydd y Cyngor yn rheolaidd, yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (CUC). Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Adolygiad Effeithiolrwydd Allanol llawn a ddaeth i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd priodol ac effeithiol fel corff llywodraethu'r Brifysgol. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad nifer o ddiwygiadau a gwelliannau er mwyn sicrhau bod Brifysgol yn parhau i gydymffurfio â'r Côd, ac mae'r Cyngor wedi cytuno ar gynllun gweithredu i gyflawni'r gwelliannau hyn.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o ran bod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ymdrechu i ymgymryd â'i materion mewn modd cyfrifol. I'r perwyl hwn, mae wedi mabwysiadu Polisi Datgelu Er Lles y Cyhoedd er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er lles y cyhoedd.

Daw'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r Brifysgol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), a rhaid dewis y Cadeirydd o'u plith. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff a myfyrwyr hefyd. Nid oes yr un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol.

Y Senedd yw awdurdod academaidd y Brifysgol. Daw aelodau'r Senedd o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Ei rôl yw cyfarwyddo a rheoleiddio gweithgareddau addysgu ac ymchwil y Brifysgol.

Mae'r Llys yn gorff mawr, ffurfiol yn bennaf. Mae'n cynnig cyfrwng i'r buddiannau ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol gysylltu â'r sefydliad, ac mae'n darparu fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi materion ynghylch y Brifysgol. Mae'r Llys fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Brifysgol wedi'u harchwilio. Daw'r rhan fwyaf o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â buddiant yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr.

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n atebol yn gyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfniadaeth dda y Brifysgol. Yn unol â thelerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-ganghellor yw swyddog cyfrifyddu'r Brifysgol ac, yn rhinwedd y swydd honno, gellir ei wysio i ymddangos ger bron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

Er bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn academaidd, pwyllgorau sy'n gwneud llawer o'i waith manwl i ddechrau, yn enwedig y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Pwyllgor Archwilio.



Disgrifir rôl y pwyllgorau hyn isod:

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannol cynlluniau strategol a phrosiectau mawr ac yn cymeradwyo cyllidebau gweithredu manwl i'w cyflwyno i'r Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn monitro'r perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb yn barhaus ac yn cynghori'r Cyngor ar oblygiadau ariannol cynlluniau cyfalaf.

Mae'r Pwyllgor Polisi Adnoddau Dynol yn cynghori'r Cyngor ar bolisïau sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol y Brifysgol yng nghyd-destun strategaeth y Brifysgol, newidiadau deddfwriaethol ac arfer da ym maes cyflogaeth.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn helpu i sicrhau bod strwythur pwyllgorau'r Brifysgol yn parhau'n "addas i'r diben" a'i fod yn gweithredu'n effeithiol. Ar ran y Cyngor, mae'n rheoli newidiadau i gyfansoddiadau, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor. Mae hefyd yn gwneud argymhellion i'r Cyngor o ran penodi swyddogion lleyg y Brifysgol a chyfethol aelodau i'r Cyngor.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol flynyddol yr Is-ganghellor, y staff athrawol a staff gweinyddol uwch.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys unwaith gyda'r archwilwyr allanol i drafod canlyniadau'r archwiliad ac i adolygu datganiadau ariannol a pholisïau cyfrifyddu'r Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd â'r archwilwyr mewnol i ystyried yr adolygiad o'r systemau rheoli mewnol ac i ymdrin ag argymhellion ar gyfer gwella'r cyfryw systemau. Mae hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan y Cyngor Cyllido i'r graddau y maent yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac mae'n monitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio.

Mae'r holl bwyllgorau hyn wedi'u cyfansoddi'n ffurfiol ac mae ganddynt gylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau lleyg y Cyngor. Cadeirir pob pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor. Yn achos y Pwyllgor Archwilio, mae'r holl aelodau'n annibynnol ar reolaeth y Brifysgol, er bod uwch-swyddogion gweithredol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor ddylanwad sylweddol ar ddatblygiad strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae'r Dirprwy Is-gangellorion a'r uwch-swyddogion proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond erys yr awdurdod pennaf gyda'r Cyngor. Mae'r Brifysgol yn cadw cofrestr o fuddiannau aelodau'r Cyngor a'r uwch-swyddogion, a gellir gweld y gofrestr drwy drefniant gydag Ysgrifennydd y Cyngor. Diffinnir rôl Ysgrifennydd y Cyngor yn ordinhadau'r Brifysgol ac mae Ysgrifennydd y Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd rhai o Bwyllgorau'r Cyngor.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

**RHAGARWEINIAD**

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system rheoli mewnol effeithiol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac am alluogi'r Brifysgol i sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Arfer a Argymhellir ar Gyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ogystal â hyn, o fewn telerau ac amodau Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei ddeiliad swydd dynodedig, baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o gyflwr gweithgareddau'r Brifysgol ac o'r warged neu'r diffyg a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

- polisïau cyfrifyddu addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson
- barnau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus yn cael eu llunio
- bod safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol sy'n cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol
- bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol rhagdybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld; am y rheswm hwn, parheir i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau na ddefnyddir arian gan Gyngor Cyllido Addysg Cymru (CCAUC) ond at y dibenion y'i rhoddwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill
- diogelu asedau'r Brifysgol ac atal a chanfod twyll
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheoli mewnol y Brifysgol, a ddyluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd ac adrannau gwasanaeth proffesiynol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt
- proses gynllunio tymor byr a thymor canolig gynhwysfawr, wedi'i hategu gan gyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl
- adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau ariannol gan gynnwys adroddiadau ar amrywiant a diweddariadau ar yr alldro a ragwelir
- gofynion ffurfiol ac wedi'u diffinio'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda phenderfyniadau buddsoddi sylweddol sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n fanwl ac yn ffurfiol gan y Pwyllgor Cyllid
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, sy'n manylu ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid
- gwasanaeth archwilio mewnol proffesiynol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, y mae ei bennaeth yn darparu i'r Cyngor, drwy'r Pwyllgor Archwilio, adroddiad ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Brifysgol a barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Brifysgol, gan gynnwys rheolaeth ariannol fewnol.



Mae elfennau allweddol system nodi a rheoli risg y Brifysgol, a ddyluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod, yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol
- gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n troi'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses, a sefydlu rheolaethau lliniaru
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol
- ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risg a'r adolygiad rheolaeth.

Fodd bynnag, gall unrhyw system rheoli mewnol ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, ynghyd â'r mesurau gweithredu, ariannol a chydymffurfio a roddwyd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r Cyngor o'r farn bod proses barhaus ffurfiol ar gyfer nodi, gwerthuso, a rheoli'r risgiau sylweddol i'r Brifysgol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Adolygir y broses hon yn rheolaidd gan y Cyngor.

**Sir Roderick Evans**
Cadeirydd y Cyngor
*Cymeradwywyd yng Nghyngor Prifysgol Abertawe 25 Tachwedd 2019*

# ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE (Y "SEFYDLIAD")

## ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Prifysgol Abertawe a datganiadau ariannol y sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun gwir a theg o faterion y grŵp a'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2019, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion y grŵp a'r sefydliad, a newdidiadau yng nghronfeydd wrth gefn a llifoedd arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland", a'r gyfraith gymwys);
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad o Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol a gynhwyswyd yn Adolygiad Gweithredol ac Ariannol 2018-19 (yr "Adroddiad Blynyddol") sy'n cynnwys: y fantolen gyfunol a mantolen y sefydliad ar 31 Gorffennaf 2019; y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr cyfunol a Datganiad y sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn cyfunol a Datganiad y sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad cyfunol o Lifoedd Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol;

### Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

#### Annibyniaeth

Buom yn gweithredu'n annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill, yn unol â'r gofynion hyn.

### Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn gosod dyletswydd arnom i adrodd i chi os yw'r canlynol yn wir:

- mae defnydd y Cyngor o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw'r Cyngor wedi datgelu yn y datganiadau ariannol ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai beri amheuaeth sylweddol am allu'r grŵp a'r sefydliad rhiant i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am o leiaf 12 mis o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion uchod.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r grŵp a'r sefydliad rhiant i barhau'n fusnes gweithredol. Er enghraifft, nid yw'r telerau y gallai'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd yn unol â hwy'n glir, ac mae'n anodd gwerthuso'r holl oblygiadau posib ar gyfer gweithgareddau, myfyrwyr a chyflenwyr y grŵp a'r sefydliad rhiant ac ar gyfer yr economi ehangach.



### Adrodd am wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn golygu'r holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad fel archwilwyr am y rhain. Y Cyngor sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio arni neu unrhyw fath arall o sicrwydd yn ei chylch ac eithrio lle y nodir yn bendant fel arall yn yr adroddiad hwn.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb perthnasol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a ddysgwyd gennym yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth hon. Os ymddengys i ni fod anghysondeb perthnasol neu gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni roi gweithdrefnau ar waith i ganfod a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o ran yr wybodaeth arall. Os deuwn i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, fod camddatganiad perthnasol o ran yr wybodaeth hon, mae'n ddyletswydd arnom i adrodd am y ffaith hon. Nid oes gennym ddim i adrodd amdano ar sail y cyfrifoldebau hyn.

Ar sail y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'r gwaith a wnaed gennym wrth gynnal yr archwiliad, mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn rhoi dyletswydd arnom hefyd i adrodd am fathau penodol o farn a materion fel y'i disgrifir isod.

*Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:*

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol ein bod yn cyflwyno adroddiad i chi os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid oes gennym eithriadau i'w hadrodd o ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn.

### Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

#### Cyfrifoldebau'r Cyngor am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor ar dudalen 26, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am ei fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am y fath reolaeth fewnol maent yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r sefydliad rhiant i barhau'n fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n berthnasol i fusnes gweithredol a chan ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Cyngor naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r sefydliad rhiant neu roi terfyn ar weithrediadau, neu oni bai nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

#### Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym yn gymwys i weithredu, ac fe'n penodwyd i weithredu'n archwilwyr o dan adran 144 Deddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n dod i rym o dani.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol os oes un. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn berthnasol os, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad fel archwilwyr.

#### Defnyddio'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y farn ynddo, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y sefydliad, a Chyngor y sefydliad yn unig, fel corff yn unol â Siarteri a Statudau'r sefydliad ac adran 151 Deddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno (Rhan 4 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008) ac nid at unrhyw ddiben arall. Wrth fynegi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ddiben arall nac ar gyfer person arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a allai gael gafael arno, ac eithrio lle y cytunir yn benodol drwy ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw.

ADRODD GOFYNNOL ARALL

**Barn ar faterion eraill a bennir yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a'r Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015**

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd berthnasol:

- bodlonwyd gofynion cyfarwyddyd CCAUC ynghylch cyfrifon;
- mae'r arian a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, o ba ffynhonnell bynnag y daeth, wedi'i ddefnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw amodau a thelerau eraill sydd ynghlwm wrtho;
- mae incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â statudau'r sefydliad;
- defnyddiwyd arian a ddarparwyd gan CCAUC yn unol â'r Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd, y Côd Rheoli Ariannol ac unrhyw amodau a thelerau eraill sydd ynghlwm wrthynt; a
- defnyddiwyd arian a ddarparwyd gan CCAUC at y dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer.

**Digonolrwydd y cofnodion cyfrifyddu a'r wybodaeth a'r esboniadau a dderbyniwyd**

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os ydym o'r farn:

- nad yw'r sefydliad rhiant wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y sefydliad rhiant yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym eithriadau i'w hadrodd o ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn.

PRICEWATERHOUSECOOPERS LLP

Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
29 Tachwedd 2019

# DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol ag FRS102 a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Uwch.

## 1. SAIL BARATOI

Mae'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd i'r Cyngor wedi cael eu paratoi'n unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (2015) ac yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae Prifysgol Abertawe yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol y safonau cyfrifyddu perthnasol. Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Teimla aelodau'r Cyngor fod hyn yn briodol oherwydd bod gan y Brifysgol adnoddau ariannol sylweddol ynghyd â gwerth sylweddol incwm contractau yn y tymor canolig. Mae aelodau'r Cyngor wedi adolygu'r rhagolygon ac maent yn rhagweld cydymffurfiaeth â'n cyfamodau drwy gydol y flwyddyn. Felly, mae aelodau'r Cyngor yn credu eu bod mewn sefyllfa gref i reoli'r risgiau busnes, er gwaethaf y newidiadau parhaus o ran cyllid yn y sector.

Mae nodyn polisi cyfrifyddu 19 yn trafod penderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau a'r amcangyfrifon ariannol â risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn nesaf.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol i 31 Gorffennaf 2019. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr oherwydd nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

## 2. CYDNABOD INCWM

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, gellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir i'r brifysgol neu disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm ffioedd fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle caiff swm y ffi ddysgu ei ostwng oherwydd disgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm.

Caiff arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei ddostalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n derbyn budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil gan ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau a rhoddion eraill gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y cyflawnir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio ar y Fantolen a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

Cyfrifir am grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth ar gyfer tir yn unol â'r model perfformiad fel y polisi ar gyfer grantiau'r Llywodraeth uchod.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio ar y Fantolen a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

Mae rhoddion a gwaddolion yn drafodion digyfnewid heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir yr incwm yn y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig nes y gellir ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, pan fo'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad cronfa wrth gefn.



Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac adbrisiant gwaddolion yn incwm y flwyddyn maent yn codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol ag amodau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Caiff rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau eu dosbarthu fel cronfeydd cyfyngedig wrth gefn a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

**1.** Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei ddefnyddio i gyflawni amcan penodol.

**2.** Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn cynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

**3.** Gwaddolion cyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Sefydliad droi'r swm a roddir yn incwm.

**4.** Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn creu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

## 3. CYFRIFYDDU AR GYFER BUDDION YMDDEOL

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae USS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'n bosib adnabod asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, mae'r cyfrifon yn ymdrin â'r cynllun fel cynllun budd ymddeol cyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yn y Cynllun USS.

### Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan ddarperir y gwasanaethau gan y gweithwyr.

### Cynllun Budd Diffiniedig

Mae cynllun budd diffiniedig yn gynllun budd ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Cyfrifir rhwymedigaeth net y Grŵp o ran cynlluniau pensiwn diffiniedig drwy amcangyfrif swm y buddion yn y dyfodol y bydd gweithwyr wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol; cymhwysir disgownt i'r budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerth teg asedau'r cynllun (ac unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol nas cydnabuwyd). Cyfradd ostyngol y rhwymedigaeth yw'r elw ar ddyddiad y fantolen ar fondiau cyfradd gredyd AA wedi'i fynegi yn arian cyfred telerau rhwymedigaethau'r grŵp ac mae eu dyddiadau aeddfedu'n cyd-fynd yn fras â thelerau rhwymedigaethau'r grŵp Mae actwari cymwysedig yn gwneud y cyfrifiad gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol. Pan fo'r cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Brifysgol, cyfyngir yr ased cydnabyddedig i gyfanswm unrhyw gostau gwasanaeth blaenorol heb eu cydnabod a gwerth presennol buddion sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun yn y dyfodol, gostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol i'r cynllun neu ar setlo'r cynllun, ac mae'n ystyried effaith niweidiol unrhyw ofynion am isafswm cyllid.

## 4. BUDDION CYFLOGAETH

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r gweithwyr yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio. Cydnabyddir hawl i wyliau blynyddol heb eu defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr yn achos staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio yn achos academyddion oherwydd nid oes rhwymedigaeth o'r fath yn bodoli.

## 5. PRYDLESI CYLLID

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae asedau ar brydles sy'n cael eu caffael drwy brydlesi cyllid yn cael eu datgan ar yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiad wedi'i gronni a cholledion wedi'u cronni oherwydd amhariad. Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod.

Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd gyfnodol gyson ar gyfer llog ar weddill y rhwymedigaeth.

## 6. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen ar werth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaethau, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol i leihau'r rhwymedigaeth ariannol i ddim dros oes y trefniant.

Mae preswylfeydd Campws y Bae a Champws Parc Singleton wedi'u dosbarthu fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

## 7. PRYDLESI GWEITHREDU

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Mae premiymau neu gymhellion prydlesi yn cael eu lledaenu dros dymor byrraf y brydles.

## 8. ARIAN CYFREDOL TRAMOR

Caiff trafodion mewn arian cyfredol tramor eu trosi i bunnoedd sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegir mewn arian cyfredol tramor ar y fantolen eu haildrosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid sy'n codi adeg trosi ar y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfredol tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad.

## 9. ASEDAU SEFYDLOG

Nodir asedau sefydlog yn nhermau cost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig oherwydd amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y newid i'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Uwch 2015. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm sydd gyfwerth â'r dibrisiad sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig ar sail flynyddol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliad eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.



### Cyfarpar

Caiff cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 am bob eitem unigol eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu cyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw 3-5 mlynedd, ac eithrio amgylchiadau anghyffredin lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

### Llongau

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

### Costau Benthyca

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau.

## 10. ASEDAU TREFTADAETH

Caiff gweithiau celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bo modd pennu'r gost neu'r gwerth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiad yn berthnasol.

## 11. EIDDO BUDDSODDIAD

Mae eiddo buddsoddiad yn cynnwys tir ac adeiladau a gedwir i ennill incwm rhentu neu adbrisiad cyfalaf yn hytrach nag i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Mesurir eiddo buddsoddiad ar sail cost i ddechrau, ac wedi hynny ar sail gwerth teg, gan gydnabod newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ni chaiff eiddo eu dibrisio, ond cânt eu hailbrisio neu eu hadolygu yn ôl amodau'r farchnad ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

## 12. BUDDSODDIADAU

Cedwir buddsoddiadau anghyfredol ar y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a phartneriaid ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Cedwir buddsoddiadau asedau cyfredol ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## 13. STOC

Cedwir stoc ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

## 14. ARIAN PAROD A CHYFWERTH

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alwad a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae asedau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn barod i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg o newid yn eu gwerth.

## 15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOL

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiadau Ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) mae rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth; a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol - neu absenoldeb digwyddiadau penodol - yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif adnoddau neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Mae ased digwyddiadol yn codi lle cafwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol yn y dyfodol - neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol - nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chydnabyddir asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

## 16. CYFRIFYDDU AR GYFER GWEITHREDIADAU AR Y CYD, ASEDAU A REOLIR AR Y CYD A GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## 17. TRETH

Mae'r Brifysgol yn elusen sydd wedi'i heithrio o fewn ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Felly, mae'n elusen o fewn ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r sefydliad fod wedi'i eithrio o dreth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW ar fewnbynnau nad oes modd ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynnau. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

## 18. CRONFEYDD WRTH GEFN

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig. Mae gwaddolion wrth gefn cyfyngedig yn cynnwys arian a gedwir, drwy waddol i'r Brifysgol, fel cronfa gyfyngedig barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol gadw'r gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys arian y mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol iddo, ac felly mae cyfyngiad ar y Brifysgol o ran defnyddio'r arian hwn.



## 19. AMCANGYFRIFON A BARNAU ARWYDDOCAOL

Mae'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

### Asedau Sefydlog Diriaethol

Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio adeg mabwysiadu FRS102. Cyflawnwyd y broses ailbrisio gan syrfewyr meintiau cymwysedig ar sail eu hadolygiad annibynnol o'r ystâd a gwybodaeth ategol gan y Brifysgol.

Yn ystod y broses ailbrisio tir ac adeiladau, adolygwyd a diweddarwyd yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr adeiladau gan syrfewyr annibynnol ar sail asesiad o oedran a chyflwr yr ystâd.

### Gallu i adennill dyledion

Mae'r polisi o ran darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac ansicr yn benodol ar gyfer pob dosbarth dyled ac yn seiliedig ar amgylchiadau a'r dyledion sy'n cael eu had-ennill ar ddiwedd y flwyddyn. Tybir bod modd adennill unrhyw ddyledion nas darparwyd ar eu cyfer.

### Rhwymedigaethau o ran buddion ymddeol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch a FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol i'r actiwarïaid, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwarïaid a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 30.

Ymdrinnir â Chynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) fel cynllun cyfraniadau diffiniedig oherwydd nad oes digon o wybodaeth ar gael i ddefnyddio cyfrifyddu buddion diffiniedig. Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth dan gontract ar y Brifysgol i dalu cyfraniadau i USS i ariannu diffygion blaenorol, felly darperir ar gyfer y rhwymedigaeth hon ar y fantolen.

Mae'r cynllun adennill diffyg a roddwyd ar waith gan USS yn pennu'r gyfran o gyfraniadau blynyddol sy'n ymwneud ag adennill diffyg blaenorol, a'r cyfnod sy'n gymwys i'r rhain. Mae'r cyfraniadau hyn a glustnodwyd ar gyfer y diffyg yn cael eu hailasesu wrth ailbrisio'r cynllun bob tair blynedd, ac maent yn sail i'r ddarpariaeth, ynghyd â thybiaethau ynghylch ffactorau chwyddiant a disgownt priodol.

# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019*

| | Nodyn | Cyfunol Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorff 19 £m | Prifysgol Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorff 19 £m | Cyfunol Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorff 18 £m | Prifysgol Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorff 18 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **170.5** | **170.5** | 168.8 | 168.8 |
| Grantiau Corff Ariannu | 2 | **25.1** | **25.1** | 20.6 | 20.6 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **94.6** | **94.6** | 51.6 | 51.6 |
| Incwm arall | 4 | **61.2** | **60.8** | 66.2 | 65.3 |
| Incwm o fuddsoddi | 5 | **0.7** | **0.7** | 0.5 | 0.5 |
| **Cyfanswm incwm cyn gwaddolion a rhoddion** | | **352.1** | **351.7** | 307.7 | 306.8 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | **0.3** | **0.3** | 0.5 | 0.5 |
| **Cyfanswm incwm** | | **352.4** | **352.0** | 308.2 | 307.3 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **177.9** | **177.5** | 158.4 | 158.0 |
| Tâl diffyg USS | 7 | **56.9** | **56.9** | (0.5) | (0.5) |
| Treuliau gweithredu eraill | | **130.8** | **131.1** | 116.6 | 116.1 |
| Dibrisiant | 11 | **22.1** | **21.9** | 15.6 | 15.5 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 8 | **7.3** | **7.3** | 6.9 | 6.9 |
| **Cyfanswm gwariant** | 9 | **395.0** | **394.7** | 297.0 | 296.0 |
| **(Diffyg) Gwarged cyn enillion a cholledion eraill a chyfran o warged / (Diffyg) gweithredol cyd-fentrau a mentrau cysylltiol** | | **(42.6)** | **(42.7)** | 11.2 | 11.3 |
| Elw / (Colled) ar waredu asedau sefydlog | | **0.1** | **0.1** | (3.4) | (3.4) |
| (Colled) / Elw ar fuddsoddiadau | | **(0.9)** | **0.1** | 0.2 | (0.2) |
| Cyfran o warged weithredu / (Diffyg) cyd-fentrau | 15 | **(0.3)** | **(0.3)** | (0.4) | (0.2) |
| **Gwarged / (Diffyg) cyn treth** | | **(43.7)** | **(42.8)** | 7.6 | 7.5 |
| Trethiant | 10 | **(0.0)** | **-** | (0.0) | - |
| **Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn** | | **(43.7)** | **(42.8)** | 7.6 | 7.5 |
| (Colled) / Elw Actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 30 | **(13.0)** | **(13.0)** | 0.6 | 0.6 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(56.7)** | **(55.8)** | 8.2 | 8.1 |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr gwaddolion ar gyfer y flwyddyn | 22 | **0.3** | **0.3** | 0.3 | 0.3 |
| (treuliau) cynhwysfawr anghyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | | **(57.0)** | **(56.1)** | 7.9 | 7.8 |
| | | **(56.7)** | **(55.8)** | 8.2 | 8.1 |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus.



# DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019*

| | Cronfa incwm a gwariant wrth gefn | | Cronfa wrth gefn ailbrisio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion | Anghyfyngedig | | |
| | £m | £m | £m | £m |
| **CYFUNOL** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2017** | 6.1 | 153.0 | 47.8 | **206.9** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 0.3 | 7.3 | - | **7.6** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | 0.6 | - | **0.6** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1.0 | (1.0) | **-** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2018** | 6.4 | 161.9 | 46.8 | **215.1** |
| **Ar 1 Awst 2018** | **6.4** | **161.9** | **46.8** | **215.1** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 0.3 | (44.0) | - | **(43.7)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | (13.0) | - | **(13.0)** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | - | 1.1 | (1.1) | **-** |
| **Cyfanswm incwm/(treuliau) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | 0.3 | (55.9) | (1.1) | **(56.7)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **6.7** | **106.0** | **45.7** | **158.4** |
| **PRIFYSGOL** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2017** | 6.1 | 152.5 | 47.8 | **206.4** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 0.3 | 7.2 | 0.0 | **7.5** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0.0 | 0.6 | 0.0 | **0.6** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | 0.0 | 1.0 | (1.0) | **0.0** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2018** | 6.4 | 161.3 | 46.8 | **214.5** |
| **Ar 1 Awst 2018** | **6.4** | **161.3** | **46.8** | **214.5** |
| Gwarged / (Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 0.3 | (43.1) | 0.0 | **(42.8)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0.0 | (13.0) | 0.0 | **(13.0)** |
| Trosglwyddo rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | 0.0 | 1.1 | (1.1) | **0.0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | 0.3 | (55.0) | (1.1) | **(55.8)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **6.7** | **106.3** | **45.7** | **158.7** |

# MANTOLEN GYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Ar 31 Gorffennaf 2019*

| | Nodyn | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 £m | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 11 | **458.6** | **457.6** | 438.7 | 437.5 |
| Asedau treftadaeth | 12 | **0.9** | **0.9** | 0.9 | 0.9 |
| Buddsoddiadau | 14 | **0.6** | **2.4** | 1.6 | 2.4 |
| Buddsoddiadau mewn mentrau ar y cyd | 15 | **2.3** | **2.3** | 2.5 | 2.5 |
| | | **462.4** | **463.2** | 443.7 | 443.3 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stociau | 16 | **0.1** | **0.0** | 0.2 | 0.1 |
| Masnach ac arian arall i'w dderbyn | 18 | **63.1** | **62.9** | 31.3 | 31.3 |
| Buddsoddiadau | 17 | **4.9** | **4.9** | 4.7 | 4.7 |
| Arian parod a chyfwerth | | **89.5** | **86.9** | 64.2 | 61.8 |
| | | **157.6** | **154.7** | 100.4 | 97.9 |
| Llai credydwyr i'w talu o fewn blwyddyn | 19 | **(191.4)** | **(189.0)** | (81.0) | (78.7) |
| **ASEDAU / (RHWYMEDIGAETHAU) CYFREDOL NET** | | **(33.8)** | **(34.3)** | 19.4 | 19.2 |
| **Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **428.6** | **428.9** | 463.1 | 462.5 |
| Credydwyr: symiau i'w talu ar ôl mwy na blwyddyn | 20 | **(121.5)** | **(121.5)** | (170.9) | (170.9) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiynau | 21 | **(148.7)** | **(148.7)** | (77.1) | (77.1) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **158.4** | **158.7** | 215.1 | 214.5 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn | 22 | **6.8** | **6.8** | 6.4 | 6.4 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | **105.9** | **106.2** | 161.9 | 161.3 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | **45.7** | **45.7** | 46.8 | 46.8 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **158.4** | **158.7** | 215.1 | 214.5 |

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2019 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)

R. Evans (Cadeirydd Dros Dro y Cyngor)



# DATGANIAD CYFUNOL O LIFOEDD ARIAN PAROD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019*

| | Nodyn | 31 Gorffennaf 2019 £m | 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| (Diffyg)/gwarged am y flwyddyn | | **(43.7)** | 7.6 |
| **Addasiad ar gyfer eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 11 | **22.1** | 15.6 |
| Incwm Consesiwn Gwasanaeth | | **(9.5)** | (8.1) |
| Llog Consesiwn Gwasanaeth | | **3.3** | 3.2 |
| Colled / (Elw) ar fuddsoddiadau | | **0.9** | (0.2) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | | **(17.3)** | 5.7 |
| (Gostyngiad) / cynnydd mewn credydwyr | | **(1.4)** | 9.1 |
| Cynnydd mewn darpariaethau pensiwn | | **58.5** | 0.6 |
| Gostyngiad mewn asedau net mewn menter ar y cyd | | **0.3** | 0.5 |
| **ADDASU AR GYFER GWEITHGAREDDAU ARIANNU NEU FUDDSODDI** | | | |
| Incwm o fuddsoddi | | **(0.7)** | (0.5) |
| Incwm grantiau cyfalaf | | **(36.4)** | (5.4) |
| Llog taladwy | | **5.4** | 5.0 |
| Incwm Gwaddolion | | **(0.1)** | (0.0) |
| (Elw) / Colled ar werthu asedau sefydlog | | **(0.1)** | 3.4 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(18.7)** | 36.5 |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **24.2** | 11.2 |
| Enillion o werthu asedau sefydlog | | **0.1** | - |
| Taliadau i brynu asedau sefydlog | | **(32.8)** | (46.9) |
| Incwm o fuddsoddi | | **0.7** | 0.5 |
| Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd | | **-** | (0.2) |
| | | **(7.8)** | (35.4) |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(2.1)** | (1.8) |
| Elfen llog prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(3.3)** | (3.2) |
| Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd | | **0.1** | 0.0 |
| Benthyciadau wedi'u gwarantu newydd | | **60.0** | - |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | **(3.3)** | (3.8) |
| | | **51.4** | (8.8) |
| **Cynnydd / (gostyngiad) mewn arian parod a chyfwerth yn y flwyddyn** | | **24.9** | (7.7) |
| Arian parod a chyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn | | **62.0** | 69.7 |
| Arian parod a chyfwerth ar ddiwedd y flwyddyn | | **86.9** | 62.0 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019*

| | | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| | Myfyrwyr amser llawn cartref a'r UE | **115.5** | **115.5** | 113.3 | 113.3 |
| | Myfyrwyr amser llawn rhyngwladol | **37.3** | **37.3** | 38.7 | 38.7 |
| | Myfyrwyr rhan-amser | **3.8** | **3.8** | 3.9 | 3.9 |
| | Contractau addysg gyda'r GIG | **13.6** | **13.6** | 12.8 | 12.8 |
| | Ffioedd cyrsiau heb eu hachredu | **0.3** | **0.3** | 0.1 | 0.1 |
| | | **170.5** | **170.5** | 168.8 | 168.8 |

I gynhyrchu'r ffi dysgu amser llawn cartref a'r UE mae'r Brifysgol wedi gwario £5.6 miliwn (2018: £6.5 miliwn) mewn perthynas â bwrsariaethau yn unol â'r cynllun ffioedd.

| | | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | **GRANTIAU CYRFF ARIANNU** | | | | |
| | Grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn - cylchol | **17.8** | **17.8** | 15.0 | 15.0 |
| | | **17.8** | **17.8** | 15.0 | 15.0 |
| | **GRANTIAU PENODOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN** | | | | |
| | Addysg Oedolion | **0.4** | **0.4** | 0.4 | 0.4 |
| | Ehangu Mynediad / Ymgyrraedd yn Ehangach | **2.9** | **2.9** | 0.6 | 0.6 |
| | Arall | **4.0** | **4.0** | 4.6 | 4.6 |
| | Cyfalaf | **7.3** | **7.3** | 5.6 | 5.6 |
| | | **25.1** | **25.1** | **20.6** | **20.6** |
| 3 | **GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| | Cynghorau Ymchwil | **17.9** | **17.9** | 12.7 | 12.7 |
| | Elusennau yn y DU | **2.6** | **2.6** | 2.2 | 2.2 |
| | Llywodraeth y DU, awdurdodau iechyd ac ysbytai | **15.1** | **15.1** | 13.9 | 13.9 |
| | Corfforaethau cyhoeddus, masnach a diwydiant y DU | **4.9** | **4.9** | 2.6 | 2.6 |
| | Cyrff llywodraethol yr UE (gan gynnwys grantiau cyfalaf) | **51.9** | **51.9** | 17.9 | 17.9 |
| | UE arall | **0.4** | **0.4** | 0.4 | 0.4 |
| | Tramor arall | **1.0** | **1.0** | 1.0 | 1.0 |
| | Ffynonellau eraill | **0.8** | **0.8** | 0.9 | 0.9 |
| | | **94.6** | **94.6** | 51.6 | 51.6 |

Mae'r swm ar gyfer cyrff llywodraethol yr UE uchod yn cynnwys £32,393k, sef dau grant cyfalaf a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn.

| | | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **INCWM ARALL** | | | | |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **27.5** | **27.5** | 27.7 | 27.7 |
| | Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | **2.6** | **2.6** | 2.9 | 2.9 |
| | Grantiau cyfalaf | **0.0** | **0.0** | 0.8 | 0.8 |
| | Incwm arall | **22.1** | **21.7** | 25.9 | 25.0 |
| | Incwm o'r GIG o ran y Coleg Meddygaeth | **8.8** | **8.8** | 8.2 | 8.2 |
| | Dyfarniadau Hyfforddiant Doethurol/Cydweithredol amser llawn y Cynghorau Ymchwil | **0.2** | **0.2** | 0.7 | 0.7 |
| | | **61.2** | **60.8** | 66.2 | 65.3 |



| | | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **INCWM O FUDDSODDI** | | | | |
| | Incwm o fuddsoddi gwaddolion | **0.2** | **0.2** | 0.2 | 0.2 |
| | Llog o fuddsoddiadau tymor byr | **0.5** | **0.5** | 0.3 | 0.3 |
| | | **0.7** | **0.7** | 0.5 | 0.5 |
| 6 | **RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| | Gwaddolion newydd | **0.1** | **0.1** | 0.1 | 0.1 |
| | Rhoddion anghyfyngedig | **0.2** | **0.2** | 0.4 | 0.4 |
| | | **0.3** | **0.3** | 0.5 | 0.5 |
| 7 | **COSTAU STAFF** | | | | |
| | **Costau staff ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd:** | | | | |
| | Cyflogau | **131.9** | **131.5** | 119.9 | 119.5 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | **13.8** | **13.8** | 12.5 | 12.5 |
| | Costau pensiwn eraill | **32.2** | **32.2** | 26.0 | 26.0 |
| | **Cyfanswm costau staff** | **177.9** | **177.5** | 158.4 | 158.0 |
| | **Tâl diffyg USS** | **56.9** | **56.9** | (0.5) | (0.5) |

Yn dilyn y methiant i gytuno ar brisiad Mawrth 2018 erbyn dyddiad y fantolen, cynyddodd darpariaeth Cynllun Blwydd-dâl Prifysgolion (USS) £ 58.3 miliwn yn y flwyddyn. Yn ystod 2019, cyfrannodd y Brifysgol £ 1.4 miliwn yn y flwyddyn tuag at ddiffyg pensiwn yr USS (2018: £ 1.9 miliwn) gan arwain at dâl o £ 56.9 miliwn yn y flwyddyn (2018: (£ 0.5 miliwn)). Yn dilyn cytundeb prisiad 2018 ar ôl diwedd y flwyddyn, disgwylir i £ 39.3 miliwn gael ei ryddhau o'r ddarpariaeth a bydd yn credydu'r Datganiad Incwm Cyfunol yn y flwyddyn hyd at 2020.

| **TALIADAU I'R IS-GANGHELLOR** | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Cyflog | **257** | **252** |
| Buddion mewn nwyddau fel y'u haseswyd at ddibenion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | **9** | **8** |
| | **266** | **260** |

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Is-ganghellor £18,000 ychwanegol mewn tâl gwyliau.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Pennaeth cyflog sylfaenol y darparwr wedi'i rannu â chyflog canolrif | 7.1 | 7.2 |
| Pennaeth cyfanswm tâl y darparwr wedi'i rannu â chydnabyddiaeth ariannol | 7.4 | 7.4 |

Cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond gan gynnwys taliadau a wneir ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau contract i staff y Brifysgol o dan gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG ac a ad-delir i'r Brifysgol gan y GIG:

| | Nifer | Nifer |
|---|---|---|
| £100,000 - £104,999 | 10 | 7 |
| £105,000 - £109,999 | 7 | 6 |
| £110,000 - £114,999 | 5 | 4 |
| £115,000 - £119,999 | 7 | 2 |
| £120,000 - £124,999 | 3 | 4 |
| £125,000 - £129,999 | 3 | 2 |
| £130,000 - £134,999 | 2 | 4 |
| £135,000 - £139,999 | 2 | 1 |
| £140,000 - £144,999 | 1 | 1 |
| £145,000 - £149,999 | 1 | 1 |
| £150,000 - £154,999 | 2 | 1 |
| £155,000 - £159,999 | - | 1 |
| £160,000 - £164,999 | 2 | - |
| £165,000 - £169,999 | 1 | 1 |
| £170,000 - £174,999 | 1 | 1 |
| £175,000 - £179,999 | 1 | 1 |
| £180,000 - £184,999 | 1 | - |
| £185,000 - £189,999 | - | - |
| £190,000 - £194,999 | 1 | - |
| £195,000 - £199,999 | - | 1 |
| £200,000 - £204,999 | - | 1 |
| £205,000 - £209,999 | 1 | - |
| £210,000 - £214,999 | - | - |
| £215,000 - £219,999 | - | - |
| £220,000 - £224,999 | - | - |
| £225,000 - £229,999 | - | - |
| £230,000 - £234,999 | - | - |
| £235,000 - £239,999 | - | 1 |

**Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod, wedi'i fynegi ar sail CALl (cyfwerth ag amser llawn):**

| | 2019<br>Nifer (CALl) | 2018<br>Nifer (CALl) |
|---|---|---|
| Academaidd | 1,112 | 1,098 |
| Ymchwil | 419 | 360 |
| Rheolwyr ac arbenigwyr | 982 | 922 |
| Technegol | 156 | 145 |
| Arall | 983 | 880 |
| | 3,652 | 3,405 |

**Ni thalwyd unrhyw daliadau am golli swydd i ddeiliad uwch swydd yn ystod y flwyddyn (2018: dim)**



**PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL**

Personél rheoli allweddol yw'r staff hynny y mae ganddynt awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i bersonél rheoli allweddol. Mae'r rheolwyr allweddol yn cynnwys yr uwch swyddogion gweithredol, gan gynnwys yr Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion y Cofrestrydd a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

| | 2019<br>£000 | 2018<br>£000 |
|---|---|---|
| Personél rheoli allweddol | 1,259 | 1,170 |

**YMDDIRIEDOLWYR**

Oherwydd natur gweithrediadau'r Sefydliad ac aelodaeth y Cyngor (a dynnir o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol) mae'n anochel y cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Caiff yr holl drafodion sy'n cynnwys sefydliadau y gallai fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt eu cynnal ar sail hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Sefydliad a'r gweithdrefnau caffael.

Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr unrhyw gydnabyddiaeth neu daliadau a ildiwyd yn ystod y flwyddyn (2018: £0).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran yr ymddiriedolwyr oedd £5,000 (2018: £2,000) wedi'i rannu rhwng Aelodau'r Cyngor. Cynrychiola hyn dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhinwedd eu rôl swyddogol fel Aelod o'r Cyngor. Nid yw'n cynnwys gwariant a ad-dalwyd i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli, oherwydd na ellir gwahaniaethu rhwng y treuliau hyn a threuliau a hawliwyd yng nghwrs arferol eu cyflogaeth.

| | | Nodyn | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL** | | | | | |
| | Llog ar fenthyciadau | | 2.1 | 2.1 | 1.8 | 1.8 |
| | Prydlesi cyllid, gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | 3.3 | 3.3 | 3.2 | 3.2 |
| | Dad-ddirwyn ffactor disgownt USS | | 0.7 | 0.7 | 0.6 | 0.6 |
| | Cost llog pensiwn net | 30 | 1.2 | 1.2 | 1.3 | 1.3 |
| | | | 7.3 | 7.3 | 6.9 | 6.9 |
| 9 | **DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH** | | | | | |
| | Adrannau Academaidd | | 126.1 | 126.1 | 109.5 | 109.5 |
| | Gwasanaethau Academaidd | | 25.3 | 25.3 | 28.4 | 28.4 |
| | Grantiau a chontractau ymchwil | | 57.8 | 57.8 | 47.9 | 47.9 |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | | 27.4 | 27.4 | 26.6 | 26.6 |
| | Mangreoedd | | 33.5 | 33.5 | 24.4 | 24.4 |
| | Gwasanaethau Proffesiynol | | 50.7 | 50.7 | 45.3 | 45.3 |
| | Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | | 2.4 | 2.4 | 2.8 | 2.8 |
| | Tâl diffyg pensiynau USS | | 57.6 | 57.6 | 0.1 | 0.1 |
| | Gweithgareddau eraill | | 14.2 | 13.9 | 12.0 | 11.0 |
| | **Cyfanswm gwariant** | | 395.0 | 394.7 | 297.0 | 296.0 |

| Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys: | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Tâl archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio | 266 | 93 |
| Tâl archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau ac eithrio archwilio | 398 | 80 |

**10 TRETHIANT**

**Cydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr**

| | Cyfunol 2019 £m | Prifysgol 2019 £m | Cyfunol 2018 £m | Prifysgol 2018 £m |
|---|---|---|---|---|
| **TRETH GYFREDOL** | | | | |
| Treuliau treth cyfredol | 0.0 | - | 0.0 | - |
| **Cyfanswm treuliau treth** | 0.0 | - | 0.0 | - |

### 11 ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – CYFUNOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau yng nghwrs adeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| **COST** | | | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 308.7 | 141.6 | 29.1 | - | 35.6 | 0.9 | 515.9 |
| Ychwanegiadau | - | 9.2 | 7.5 | - | 25.3 | 0.0 | 42.0 |
| Trosglwyddiadau | 49.6 | - | 1.0 | 1.6 | (52.2) | - | (0.0) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **358.3** | **150.8** | **37.6** | **1.6** | **8.7** | **0.9** | **557.9** |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 31.6 | 24.6 | 20.1 | - | - | - | 76.3 |
| Tâl am y flwyddyn | 10.5 | 7.1 | 4.5 | 0.0 | - | - | 22.1 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **42.1** | **31.7** | **24.6** | **0.0** | **-** | **-** | **98.4** |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **316.2** | **119.1** | **13.0** | **1.6** | **8.7** | **0.9** | **459.5** |
| **Ar 1 Awst 2018** | **277.1** | **117.0** | **9.0** | **-** | **35.6** | **0.9** | **439.6** |

### ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – Y BRIFYSGOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau yng nghwrs adeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| **COST** | | | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 308.7 | 141.6 | 27.4 | - | 35.6 | 0.9 | 514.2 |
| Ychwanegiadau | - | 9.2 | 7.5 | - | 25.3 | 0.0 | 42.0 |
| Trosglwyddiadau | 49.6 | - | 1.0 | 1.6 | (52.2) | - | (0.0) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **358.3** | **150.8** | **35.9** | **1.6** | **8.7** | **0.9** | **556.2** |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 31.6 | 24.6 | 19.6 | - | - | - | 75.8 |
| Tâl am y flwyddyn | 10.5 | 7.1 | 4.3 | 0.0 | - | - | 21.9 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **42.1** | **31.7** | **23.9** | **0.0** | **-** | **-** | **97.7** |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **316.2** | **119.1** | **12.0** | **1.6** | **8.7** | **0.9** | **458.5** |
| **Ar 1 Awst 2018** | **277.1** | **117.0** | **7.8** | **-** | **35.6** | **0.9** | **438.5** |



### 11 PARHAD

Cymhwysodd y cwmni drefniadau trosiannol Adran 35 Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102 a defnyddiodd brisiad blaenorol fel cost dybiedig ar gyfer eiddo rhydd-ddaliad. Mae'r eiddo'n cael eu dibrisio o ddyddiad y prisiad. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn. Dadansoddiad o'r tir a'r adeiladau a brisiwyd ar ddyddiad y newid i FRS 102 gan ddefnyddio'r eithriad cost dybiedig.

Ar 31 Gorffennaf 2019, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £16.5 miliwn (2018: £16.5 miliwn) o ran tir rhydd-ddaliad nad yw wedi dibrisio.

Prisiwyd tir ac eiddo'r Brifysgol yn llawn ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig, yn unol â Phrisiad RICS – Safonau Proffesiynol 2014 (y Llyfr Coch). Yn unol â FRS 102, Paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad pontio, 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw.

### 12 ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU TREFTADAETH

Mae asedau treftadaeth ar y fantolen yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Yn ogystal, ceir asedau treftadaeth eraill sy'n amhrisiadwy oherwydd eu natur, felly ni chawsant eu cynnwys yn y prisiad.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn cadw'r Casgliad Wellcome, sy'n cynnwys hynafiaethau ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy; i lawer mae'r casgliad hwn yn amhrisiadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae'n bartner ACCES cydnabyddedig. Nod y Ganolfan Eifftaidd yw casglu, dehongli a gofalu am ddeunyddiau a dogfennau archeolegol, ac mae cadwraeth yn rhan hollbwysig o'i gwaith. Caiff yr holl bolisïau eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae'r Casgliad Wellcome ar gael i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd ei weld.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y fantolen o dan Asedau Treftadaeth (gweler Nodyn 12). Prisiwyd y casgliad hwn yn 2008 gan brisiwr annibynnol, ac oherwydd natur y gwaith mae ganddo werth mesuradwy. Cymerwyd yr ailbrisiad hwn yn 2008 fel y gost dybiedig adeg pontio. Gellir gweld y mwyafrif o'r casgliad celf ledled y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd, sy'n cynnwys powlenni, fasau a chwpanau cystadlaethau yn dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir prisio'r casgliad hwn, felly nid ydynt yn ymddangos ar y fantolen. Cedwir y casgliad yn ddiogel, ond mae ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae'r Brifysgol hefyd yn berchen ar lawysgrifau gan Dylan Thomas a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd y Brifysgol.

## 13 TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe threfniant consesiwn gwasanaeth ar y fantolen.

### NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Gwerth asedau'r gwasanaethau consesiwn ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2019 yw £119.1m (1 Awst 2018: £117m).

### NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Cyfanswm y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â threfniadau consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2019 oedd £127.7m (1 Awst 2018: £124.8m). Cafwyd gostyngiad o £6.2m mewn rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn yn dilyn ad-daliad ac addasiadau cyfrifyddu. Cynyddodd rhwymedigaethau o £5.7m yn sgil consesiwn gwasanaeth newydd a chafwyd cynnydd arall o £3.4m o ganlyniad i addasiadau cyfrifyddu.

### YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

| | Taladwy mewn 1 flwyddyn | Taladwy mewn 2-5 mlynedd | Taladwy mewn >5 mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6.2 | 12.1 | 109.4 | 127.7 |
| Tâl cyllid | 3.2 | 12.1 | 45.6 | 60.9 |
| | **9.4** | **24.2** | **155.0** | **188.6** |

Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am drefniadau consesiwn gwasanaeth presennol y Brifysgol:

### PRESWYLFEYDD GWALIA

Cyn trosi'r Datganiadau Ariannol, ymrwymodd y Brifysgol i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys ar y fantolen yn y gorffennol. Mae'r prydlesi hyn nawr wedi'u cynnwys ar y fantolen fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

Cyn trosi'r Datganiadau Ariannol, ymrwymodd y Brifysgol i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys ar y fantolen yn y gorffennol. Mae'r prydlesi hyn nawr wedi'u cynnwys ar y fantolen fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

Cam 1 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd yr ymrwymodd y Brifysgol iddi yn 2004 i adeiladu tri bloc newydd o lety yn cynnwys 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%.

### PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A

Ym mis Medi 2015, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1a llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 899 o ystafelloedd ar gyfer 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, ymrwymodd y trydydd parti - â chydsyniad y Brifysgol - i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn ôl telerau'r trefniant newydd, estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol o £1,485,000, a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol yr hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.



## 13 PARHAD

### PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1B

Ym mis Ionawr 2016, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1b llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol ymrwymedig o £823,000 a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

### PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C

Ar 15 Rhagfyr 2015, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1c llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 538 o ystafelloedd sengl.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n golygu taliadau blynyddol o £1,056,000 a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan y 30ain o Fawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw gyda'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract 45 o flynyddoedd, bydd gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

### ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG

Ar 8 Medi 2017, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 20 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Adeilad Academaidd

Mae gan y Brifysgol warant o 35% o'r adeilad sy'n golygu taliadau blynyddol ymrwymedig o £357k

Mae gan y Brifysgol hawliau unigryw dros y 35% o'r adeilad a ddynodwyd iddi ac mae'n rheoli defnydd yn yr ardal hon.

## 14 BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

| | Is-gwmnïau | Buddsoddiadau asedau sefydlog eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **CYFUNOL** | £m | £m | £m |
| **Ar 1 Awst 2018** | - | 1.6 | **1.6** |
| Ailbrisio | - | -0.6 | **-0.6** |
| Amhariad | - | -0.4 | **-0.4** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | - | **0.6** | **0.6** |
| **PRIFYSGOL** | | | |
| **Ar 1 Awst 2018** | 2.4 | - | **2.4** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **2.4** | - | **2.4** |

**14 PARHAD**

Dadansoddir y buddsoddiadau isod:

| CWMNI | CYFEIRIAD COFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | CYFRANDDALIAD |
|---|---|---|---|
| Altenergis plc | 2nd Floor Berkeley Square House, Berkeley Square, London, W1J 6BD | Other research and experimental development on natural sciences and engineering | 2% |
| Nightingale-EOS | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Manufacture of electronic industrial process control equipment | 2% |
| Polypharmakos Ltd | C/O Greenaway Scott Limited 40 Bloomsbury Way, Lower Ground Floor, London, England, WC1A 2SE | Research and experimental development on biotechnology | 4% |
| Cardiac Health Diagnostics Ltd | Room 508 Institute Of Life Sciences 2 Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Specialists medical practice activities | 5% |
| BIPV Ltd | Gcell Building South Lake Drive, Imperial Park, Newport, United Kingdom, NP10 8AS | Other manufacturing not elsewhere classified | 5% |
| Iatrotec Professional Learning Ltd | 104 Harewood Avenue, Bournemouth, BH7 6NS | Educational | 5% |
| Centre for Mindful Based Work and Research Ltd | Floor 2, Data Science Building Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Other human health activities | 5% |
| Wowdeals Ltd | Department Of Research And Innovation Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP | Dormant | 5% |
| AANDSA Pharma Ltd | C/O Baldwins Ty Derw, Lime Tree Court, Cardiff Gate Business Park, Cardiff, United Kingdom, CF23 8AB | Dormant | 5% |
| Bionema Ltd | Druslyn House, De La Beche Street, Swansea, Wales, SA1 3HJ | Research and experimental development on biotechnology | 7% |
| Zeta Computational Resources Ltd | International House, 10 Churchill Way, Cardiff, Wales, CF10 2HE | Publishing | 10% |
| Sportsviz Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Business and domestic software development | 10% |
| China Centre Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Management consultancy activities other than financial management | 10% |
| Membranology Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Engineering related scientific and technical consulting activities | 10% |
| Biopesco Ltd | Druslyn House, De La Beche Street, Swansea, Wales, SA1 3HJ | Dormant | 10% |
| Rynda Health Diagnostics Ltd | C/O Bevan & Buckland Langdon House, Langdon Road, Swansea, Wales, SA1 8QY | Dormant | 10% |
| Deep Data Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Data processing, hosting and related activities | 10% |
| Swansea Print Engineering Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Dormant | 10% |
| Aquatic Environmental Research Limited | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Environmental consulting activities | 11% |
| Bay Innovations Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Dormant | 12% |
| Talent Accelerator Ltd | Institute Of Life Science 2 Floor 1, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Post-secondary non-tertiary education | 12% |
| Wildbyte Technologies Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Engineering related scientific and technical consulting activities | 13% |
| Moleculomics ltd | 48 Mumbles Road, Blackpill, Swansea, Wales, SA3 5AU | Other research and experimental development on natural sciences and engineering | 15% |
| Trauma Simulation Ltd | 11 Park Square, Newport, Wales, NP20 4EL | Other research and experimental development on natural sciences and engineering | 15% |
| Syncura Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Dormant | 15% |
| Cellometry Ltd | Broomfield & Alexander Ltd, Charter Court Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, SA7 9FS | Other research and experimental development on natural sciences and engineering | 15% |



| CWMNI | CYFEIRIAD COFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | CYFRANDDALIAD |
|---|---|---|---|
| Murex Advanced Materials Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Segur | 15% |
| Digital Academic Solutions Ltd | 14 Admirals Walk, Sketty, Swansea, Wales, SA2 8LQ | Cyhoeddi meddalwedd arall | 15% |
| HPC Wales | Cae Derwen, College Road, Bangor, Gwynedd, Wales, LL57 2DG | Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhywle arall | 17% |
| Semitechnologies Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Gweithgareddau ymgynghori gwyddonol a thechnegol ym maes peirianneg | 20% |
| ProGnomics Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 20% |
| Teclyn Ltd | 456 Gower Road, Killay, Swansea, Wales, SA2 7AL | Segur | 20% |
| Gower Innovations Ltd | School Of Management Swansea University, Fabian Way, Swansea, United Kingdom, SA1 8EN | Gweithgarwch gweithgynhyrchu arall nad yw wedi'i ddosbarthu'n rhywle arall | 20% |
| SPMicrotech Ltd | Mha Broomfield Alexander Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Segur | 20% |
| VRTax (diddymwyd 2 Gorffennaf 2019) | Broomfield And Alexander Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Trovinos Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Grove Nanomaterials Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Reflex Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Segur | 20% |
| Procoll Ltd | C/O Baldwins Charter Court, Swansea Enterprise Park, Swansea, Wales, SA7 9FS | Segur | 20% |
| PulmonIR Ltd | Institute Of Life Science Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 24% |
| Trameto Ltd | C/O Baldwins, Ty Caer Wyr Charter Court, Phoenix Way, Enterprise Park, Swansea, United Kingdom, SA7 9FS | Gweithgynhyrchu cydrannau electronig | 25% |
| Hexigone Inhibitors Ltd | Baglan Bay Innovation Centre Central Avenue, Baglan, Port Talbot, Wales, SA12 7AX | Gweithgynhyrchu cynhyrchion cemegol nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhywle arall | 17% |
| Bay Campus Developments LLP | Finance Department Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Segur | 50% |
| WNPS | Wales National Pool Swansea, Sketty Lane, Swansea, SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | 50% |
| Bay Sports Ltd | Suite 4 St Helens Rugby And Cricket Ground, Bryn Road, Swansea, Swansea, United Kingdom, SA2 0AR | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | 50% |
| Swan Global Education | Littlemore Park, Armstrong Road, Oxford, Oxfordshire, OX4 4FY | Addysgol | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Finance Building Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 100% |
| Swansea Innovations | Finance Building Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP | Gweithgareddau ymgynghori rheoli ac eithrio rheolaeth ariannol | 100% |
| SU Developments | Finance Department Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Segur | 100% |
| SU Pathway College Ltd | Finance Building Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Gweithgareddau cefnogi cyfleusterau cyfun | 100% |
| The Dylan Thomas Prize | Finance Department Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Addysg ddiwylliannol | 100% |
| Specific Innovations | Department Of Research And Innovation Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | 100% |
| Active Building Centre Ltd | Finance Department Swansea University, Singleton Park, Swansea, Wales, SA2 8PP | Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill nad ydynt wedi'u dosbarthu'n rhywle arall | 100% |

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu mesur ar sail pris trafodion (gan gynnwys costau trafodion) a chânt eu hystyried yn flynyddol am amhariad. Mae nodyn 29 yn cynnwys rhestr lawn o is-gwmnïau.

## 15 BUDDSODDIAD MEWN MENTRAU AR Y CYD

**Mae gan y Brifysgol y cyd-fentrau canlynol:**

Cyfran 50% o Bwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (WNPS), cwmni cyfyngedig trwy warant. Mae hwn yn gwmni cyd-fenter y mae'r Brifysgol a Chyngor Dinas a Sir Abertawe'n berchen arno'n gydradd.

Cyfran 50% o Bay Sports Limited, cwmni cyfyngedig trwy warant. Mae hwn yn gwmni cyd-fenter y mae'r Brifysgol a Bay Leisure Ltd yn berchen arno'n gydradd. Daeth masnachu gan y fenter ar y cyd hon i ben ar 5 Medi 2018 ac mae'r broses ddiddymu'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Caiff y trefniadau sy'n ymwneud â Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe a Bay Sports Limited eu trin fel cyd-fentrau a chyfrifir amdanynt gan ddefnyddio'r dull ecwiti, yn y fath fodd y caiff 50% o rwymedigaethau ac asedau gros y cwmnïau eu cynnwys ym mantolen gyfunol y Brifysgol a nodir 50% o'r incwm net yng nghyfrif incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cydreoli High Performance Computing Wales (HPC) hefyd, sy'n gwmni cyfyngedig trwy warant. Mae hwn yn gwmni menter ar y cyd y mae'r Brifysgol yn berchen arno'n gydradd gyda Phrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Aberystwyth, a chyfrifir amdano gan ddefnyddio'r dull ecwiti fel uchod.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol gyfran 50% yn Swan Global Education LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Mae hon yn bartneriaeth menter ar y cyd y mae'r Brifysgol (drwy is-gwmni y mae'n berchen arno'n llwyr, SU Pathway College Limited) ac International College Wales Limited yn berchen arno'n gydradd. Mae Prifysgol Abertawe, ynghyd â PAC daliad terfynol Coleg Rhyngwladol Cymru Cyf, wedi darparu llythyr i gefnogi ariannol Global Global LLP am gyfnod o ddim llai na 12 mis o ddyddiad llofnodi datganiadau ariannol y bartneriaeth. Ar hyn o bryd mae datganiadau ariannol y PAC yn ddrafft ac heb eu llofnodi

**Mae gan y Brifysgol fuddiant hefyd yn y fenter ar y cyd ganlynol sy'n segur ar hyn o bryd:**

Cyfran 50% o Bay Campus Developments LLP, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n segur ar hyn o bryd. Mae hon yn bartneriaeth menter ar y cyd y mae'r Brifysgol (drwy is-gwmni y mae'n berchen arno'n llwyr, SU Developments Limited) a St Modwen Developments Limited yn berchen arni'n gydradd.

Am fod y cwmni hwn yn segur, heb asedau na rhwymedigaethau, nid oes unrhyw gofnodion cyfrifyddu eleni.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019 | | | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **WNPS** | **Swan Global Education** | **Bay Sports** | **HPC** | WNPS | Bay Sports | HPC |
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| **INCWM A GWARIANT** | | | | | | | |
| Incwm | **0.7** | **2.9** | - | - | 0.6 | 0.3 | - |
| Diffyg | **(0.3)** | **(0.0)** | - | - | (0.2) | - | - |
| **MANTOLEN** | | | | | | | |
| Asedau sefydlog | **2.3** | **0.2** | - | - | 2.3 | - | - |
| Asedau cyfredol | **0.4** | **2.1** | - | **0.0** | 0.3 | - | 0.0 |
| | **2.7** | **2.3** | - | **0.0** | 2.6 | - | 0.0 |
| Credydwyr <1 flwyddyn | **(0.2)** | **(2.3)** | - | **(0.0)** | (0.1) | - | (0.0) |
| Credydwyr >1 flwyddyn | - | - | - | - | - | - | - |
| Croniadau ac Incwm Gohiriedig | **(0.2)** | - | - | - | - | - | - |
| | **(0.4)** | **(2.3)** | - | **(0.0)** | (0.1) | - | (0.0) |
| Cyfran asedau net | **2.3** | **(0.0)** | - | - | 2.5 | - | 0.0 |

### GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD

Mae'r Brifysgol yn rhan o nifer o gontractau ymchwil ar y cyd â phrifysgolion eraill a chontractau ar y cyd â phartneriaid eraill. Yr incwm o drefniadau o'r fath yn 2019 oedd £35.9 miliwn (2018: £45.2 miliwn).

### BUDDSODDIADAU MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL

Drwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiad y fantolen, nid oedd gan y Brifysgol unrhyw fuddsoddiadau mewn cwmnïau partner (2018: Cyfranddaliad 40% yn Hexigone Inhibitors Ltd)



## 16 STOC

| | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 £m | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|---|---|
| Stoc | **0.1** | **0.0** | 0.2 | 0.1 |
| | **0.1** | **0.0** | 0.2 | 0.1 |

## 17 BUDDSODDIADAU CYFREDOL

| | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 £m | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau tymor byr mewn cyfranddaliadau | **3.2** | **3.2** | 3.2 | 3.2 |
| Bondiau tymor byr | **1.3** | **1.3** | 1.2 | 1.2 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | **0.3** | **0.3** | 0.2 | 0.2 |
| Adneuon tymor byr | **0.1** | **0.1** | 0.1 | 0.1 |
| | **4.9** | **4.9** | 4.7 | 4.7 |

Y cynnydd mewn gwerth teg adneuon tymor byr yn y flwyddyn oedd £121,000 (2018: £176,000)

Cedwir adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n gweithredu ym marchnad Llundain a thrwyddedau gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol â thros dri mis o aeddfedrwydd ar ddyddiad y fantolen. Mae'r cyfraddau llog ar gyfer yr adneuon hynny'n sefydlog am gyfnod yr adneuon adeg eu gosod.

Ar 31 Gorffennaf 2019, cyfradd llog cyfartalog pwysol yr adneuon sefydlog hyn oedd 3.70% (2018: 3.20%). Nid oedd gwerth teg yr adneuon hyn yn sylweddol wahanol i'w gwerth llyfr.

## 18 MASNACH AC ARIAN TALADWY ARALL

| | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 £m | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 £m | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn:** | | | | |
| Grantiau ymchwil i'w derbyn | **11.7** | **11.7** | 6.0 | 6.0 |
| Masnach arall i'w derbyn | **10.2** | **9.6** | 7.9 | 7.5 |
| Symiau eraill i'w derbyn | **0.2** | **0.6** | -0.3 | 0.2 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **41.0** | **41.0** | 17.7 | 17.6 |
| | **63.1** | **62.9** | 31.3 | 31.3 |

## 19 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS YMHEN BLWYDDYN

| | Cyfunol | University | Cyfunol | University |
|---|---|---|---|---|
| | 31 July 2019 | 31 July 2019 | 31 July 2018 | 31 July 2018 |
| | £m | £m | £m | £m |
| Gorddrafft banc | 2.5 | - | 2.2 | - |
| Benthyciadau gwarantedig | 111.3 | 111.3 | 2.5 | 2.5 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 6.2 | 6.2 | 5.9 | 5.9 |
| Symiau masnach sy'n daladwy | 8.0 | 8.0 | 8.1 | 8.1 |
| Nawdd Cymdeithasol a threth arall i'w talu | 4.1 | 4.1 | 3.7 | 3.7 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 59.3 | 59.4 | 58.6 | 58.5 |
| | 191.4 | 189.0 | 81.0 | 78.7 |

Ar 31 Gorffennaf 2019, dosbarthwyd benthyciadau gwarantedig y Brifysgol sy'n ddyledus o fewn blwyddyn er bod yr ad-daliadau a drefnwyd o dan y cytundeb cyfleuster ar gyfer ad-daliadau o £ 109m ar ôl mwy na blwyddyn. Esbonnir y rheswm dros y driniaeth gyfrifyddu hon yn nodyn 20 isod.

### CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG

**Mae'r eitemau canlynol sydd wedi'u gohirio wedi'u cynnwys o fewn croniadau ac incwm gohiriedig:**

| | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ymlaen llaw | 10.3 | 10.3 | 12.7 | 12.7 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd ymlaen llaw | 0.8 | 0.8 | 0.4 | 0.4 |
| Grantiau'r Cyngor Cyllido a dderbyniwyd ymlaen llaw | 0.6 | 0.6 | 1.4 | 1.4 |
| Grantiau eraill a dderbyniwyd ymlaen llaw | 8.7 | 8.7 | 6.5 | 6.5 |
| Croniadau eraill | 38.9 | 39.0 | 37.6 | 37.5 |
| | 59.3 | 59.4 | 58.6 | 58.5 |

## 20 CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | Cyfunol 31 Gorffennaf 2019 | Prifysgol 31 Gorffennaf 2019 | Cyfunol 31 Gorffennaf 2018 | Prifysgol 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 121.5 | 121.5 | 118.8 | 118.8 |
| **Dadansoddiad o fenthyciadau gwarantedig ac anwarantedig:** | - | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn ar alwad | 111.3 | 111.3 | 2.5 | 2.5 |
| Yn ddyledus o fewn un i ddwy flynedd | - | - | 2.9 | 2.9 |
| Yn ddyledus o fewn dwy i bum mlynedd | - | - | 9.1 | 9.1 |
| Yn ddyledus mewn pum mlynedd neu fwy | - | - | 40.1 | 40.1 |
| | 232.8 | 232.8 | 173.4 | 173.4 |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar alwad | 111.3 | 111.3 | 2.5 | 2.5 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 121.5 | 121.5 | 170.9 | 170.9 |
| Benthyciadau gwarantedig sy'n ad-daladwy erbyn 2044 | 111.3 | 111.3 | 54.6 | 54.6 |
| | 111.3 | 111.3 | 54.6 | 54.6 |



## 20 PARHAD

Ar 31 Gorffennaf 2019, roedd y Brifysgol wedi torri un o'i chyfamodau benthyca i Fanc Buddsoddi Ewrop, fel sy'n cael ei esbonio yn yr adran "Rheolaeth Ariannol a Risgiau" yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol. Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi ildio ei hawliad mewn perthynas â'r toriad hwn ond y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd disgwyliad o doriad ac nid oedd cynnig i unioni hyn ar y pryd. O ganlyniad, dosbarthwyd y benthyciadau dyledus gan Fanc Buddsoddi Ewrop fel rhai sy'n ad-daladwy ar alwad ar 31 Gorffennaf 2019, a chawsant eu cynnwys yn y credydwyr sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn. Pe bai'r benthyciad wedi cael ei ailddosbarthu ar sail yr hawlildiad a dderbyniwyd yn y cyfamser, byddai'r sefyllfa fel a ganlyn:

| | 31 Gorffennaf 2019 | |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o fenthyciadau gwarantedig ac anwarantedig:** | Cyfunol | Prifysgol |
| | £m | £m |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn ar alwad | 2.1 | 2.1 |
| Yn ddyledus o fewn un i ddwy flynedd | 3.0 | 3.0 |
| Yn ddyledus o fewn dwy a phum mlynedd | 15.3 | 15.3 |
| Yn ddyledus o fewn pum mlynedd neu fwy | 90.9 | 90.9 |
| **Cyfanswm benthyciadau gwarantedig** | 111.3 | 111.3 |
| **Benthyciadau gwarantedig sy'n ad-daladwy erbyn 2044** | 111.3 | 111.3 |

## 20 PARHAD

**Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y benthyciadau:**

| Benthyciwr | Swm (£m) | Cyfradd llog | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| Banc Buddsoddi Ewrop | 11.7 | 2.46600% sefydlog | June 2033 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 12.5 | 2.31300% sefydlog | January 2034 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 8.8 | 3.7330% sefydlog | August 2034 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 9.1 | 3.8540% sefydlog | January 2035 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 9.2 | 4.0220% sefydlog | August 2035 | Prifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | 60.0 | 2.4480% sefydlog | April 2044 | Prifysgol |
| **Cyfanswm** | 111.3 | | | |

## 21 DARPARIAETH AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| | Rhwymedigaeth i ariannu diffyg USS | Darpariaeth Cynllun Pensiwn SUPS | Cyfanswm darpariaethau pensiwn |
|---|---|---|---|
| **CYFUNOL A'R BRIFYSGOL** | £m | £m | £m |
| **Ar 1 Awst 2018** | 31.1 | 46.0 | 77.1 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (1.4) | (0.4) | (1.8) |
| Dad-ddirwyn ffactor disgownt | 0.7 | 1.3 | 2.0 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 58.4 | 13.0 | 71.4 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | 88.8 | 59.9 | 148.7 |

Mae'r rhwymedigaeth i ariannu diffyg hanesyddol Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) yn codi o'r rhwymedigaeth gontractiol â'r cynllun pensiwn am gyfanswm taliadau sy'n ymwneud â buddion sy'n codi o berfformiad yn y gorffennol. Mae'r rheolwyr wedi asesu gweithwyr yn y dyfodol o fewn cynllun USS a thaliadau cyflog dros gyfnod y rhwymedigaeth dan gontract wrth asesu gwerth y ddarpariaeth hon.

## 22 CRONFEYDD GWADDOL

**Mae'r asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn:**

| | Gwaddolion parhaol cyfyngedig | Gwaddolion parhaol anghyfyngedig | Gwaddolion i'w gwario | Cyfanswm 2019 | Cyfanswm 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **BALANSAU** | £m | £m | £m | £m | £m |
| **Ar 1 Awst 2018** | | | | | |
| Cyfalaf | 4.0 | 1.5 | 0.2 | **5.7** | 5.5 |
| Incwm cronedig | 0.6 | 0.1 | 0.1 | **0.8** | 0.6 |
| | 4.6 | 1.6 | 0.3 | **6.5** | 6.1 |
| Rhoddion a gwaddolion newydd | - | - | 0.1 | 0.1 | 0.0 |
| Incwm o fuddsoddi | 0.1 | 0.1 | 0.0 | **0.2** | 0.2 |
| Gwariant | -0.0 | -0.1 | -0.0 | **-0.1** | -0.1 |
| | 0.1 | - | 0.1 | **0.2** | 0.1 |
| Cynnydd yng ngwerth y buddsoddiadau ar y farchnad | 0.1 | 0.0 | 0.0 | **0.1** | 0.2 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2019** | **4.8** | **1.6** | **0.4** | **6.8** | 6.4 |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | |
| Cyfalaf | 4.1 | 1.5 | 0.4 | **6.0** | 5.7 |
| Incwm cronedig | 0.7 | 0.1 | 0.0 | **0.8** | 0.7 |
| | **4.8** | **1.6** | **0.4** | **6.8** | 6.4 |

| **DADANSODDIAD FESUL MATH O DDIBEN:** | 2019 £m | 2018 £m |
|---|---|---|
| Ysgoloriaethau a bwrsariaethau | **2.9** | 2.8 |
| Cymorth ymchwil | **0.3** | 0.3 |
| Cronfeydd gwobrau | **0.8** | 0.6 |
| Cyffredinol | **2.8** | 2.7 |
| | **6.8** | 6.4 |

| **DADANSODDIAD FESUL ASED** | 2019 £m | 2018 £m |
|---|---|---|
| Stociau a bondiau â llog sefydlog | **1.3** | 1.2 |
| Ecwitïau | **3.2** | 3.2 |
| Cronfeydd rhagfantoli | **-** | 0.1 |
| Cronfeydd nwyddau | **0.1** | 0.0 |
| Eiddo | **0.1** | 0.1 |
| Balansau banc a ddelir gan reolwyr buddsoddi | **0.1** | 0.1 |
| Arall | **0.1** | - |
| Balans banc – y Brifysgol | **1.9** | 1.7 |
| | **6.8** | 6.4 |



## 23 CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG

Nid oedd unrhyw gronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn ystod y flwyddyn (2018: DIM).

## 24 CYSONI LLIF ARIAN I'R FANTOLEN

| | Ar 1 Awst 2018 | Llifoedd Arian | Ar 31 Gorffennaf 2019 |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Arian yn y banc ac adneuon | 61.8 | 25.1 | 86.9 |
| | **61.8** | **25.1** | **86.9** |

## 25 CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL

**Ni wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2019:**

| | Cyfunol 2019 | Prifysgol 2019 | Cyfunol 2018 | Prifysgol 2018 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| **Ymrwymiadau y contractiwyd ar eu cyfer:** | **7.7** | **7.7** | 17.7 | 17.7 |
| | **7.7** | **7.7** | 17.7 | 17.7 |

## 26 RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

| | £m | £m | £m | £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwarantau | | | | |
| I Lloyds ar gyfer SMaRT Ltd | - | **0.5** | - | 0.5 |
| | - | **0.5** | - | 0.5 |

Mae'r Brifysgol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Limited drwy gyfleuster gorddrafft o £500,000 yn unig. Cred y Brifysgol fod posibilrwydd bach yn unig y bydd angen talu'r warant oherwydd bod Swansea Materials Research & Testing Limited yn is-gwmni y mae'n berchen yn llwyr arno ac a reolir gan uwch staff y Brifysgol. Mae'r graddau y bydd angen y warant yn dibynnu ar orddrafft cyfredol yr is-gwmni. Os caiff ei thalu, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ad-daliad ar gyfer y rhwymedigaeth ddigwyddiadol hon.

Mae'r Brifysgol yn aelod o UMAL, cwmni cyfyngedig drwy warant, a sefydlwyd i ddarparu cydgymdeithas ar gyfer risgiau yswiriant. O dan delerau ei aelodaeth, mae pob aelod yn gweithredu fel yswiriwr ac yswiriedig. Os bydd y gymdeithas gyfan yn dioddef diffyg mewn unrhyw flwyddyn warantu, mae'r aelodau'n atebol am eu cyfran sydd wedi'i dosbarthu'n gymesur, a ledaenir gan ddefnyddio cyfleuster benthyg mewnol dros saith mlynedd. Mae'r potensial ar gyfer diffyg a gwerth y diffyg mewn unrhyw flwyddyn benodol yn anhysbys. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw bosibilrwydd o ad-daliad os gelwir ar y warant hon.

Mae gan y Brifysgol fuddsoddiad o 16.67% yn High Performance Computing Wales (HPC Wales). Mae HPC Wales wedi'i ariannu'n rhannol gan gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cwmni'n destun archwiliadau rheolaidd am gydymffurfiaeth ac, o ganlyniad, mae perygl y cymerir cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn ôl, os na fodlonir meini prawf penodol. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'r Brifysgol yn gyfrifol am gyfran o'r swm i'w ad-dalu. Mae gwerth unrhyw symiau i'w had-dalu a'r tebygolrwydd y cymerir unrhyw arian yn ôl yn anhysbys. Mae'n annhebygol y cymerir unrhyw arian yn ôl os gelwir ar y warant hon.

## 27 RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

| Cyfanswm rhenti i'w talu o dan brydlesi gweithredu | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cyfunol a'r Sefydliad | Tir ac adeiladau £m | Tir ac adeiladau £m |
| Taladwy yn ystod y flwyddyn | **0.8** | 0.4 |
| **Isafswm taliadau prydlesi dyledus yn y dyfodol** | | |
| O fewn blwyddyn | **0.9** | 0.6 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | **2.2** | 0.9 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | **5.6** | 1.3 |
| **Cyfanswm taliadau prydlesu dyledus** | **9.5** | 3.2 |

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd y Brifysgol i brydles newydd ar gyfer adeilad Y Coleg ar gampws y Bae, ynghyd â phrydlesi newydd yn Ysbyty Singleton, y Ganolfan Ddinesig a'r prydlesi llety newydd.

Cyfanswm symiau rhent i'w derbyn o dan brydlesi gweithredu:

Mae'r Brifysgol yn denant ar ddwy brydles sylweddol; y landlordiaid yw Dinas a Sir Abertawe (y Ganolfan Ddinesig) a'r GIG (Ysbyty Singleton). Tymor prydles y Ganolfan Ddinesig yw tair blynedd o 2018 ac mae cost flynyddol o £0.1M ynghlwm wrth y brydles. Nid yw'r Brifysgol yn gallu terfynu'r brydles hon. Tymor prydles Ysbyty Singleton yw pum mlynedd o 2018 ac mae cost flynyddol o £0.1M ynghlwm wrth y brydles. Daw cyfle i derfynu ar ôl tair blynedd. Mae'r Brifysgol yn prydlesu lle ar Gampws Singleton a Champws y Bae. Mae prydlesi sylweddol ar Gampws Singleton yn cynnwys deintyddfa, meddygfa, uned fanwerthu ar gyfer Undeb y Myfyrwyr a lle mewn labordy ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae telerau a chyfnodau terfynu pob prydles yn amrywio. Mae gan y Brifysgol un brydles sylweddol ar Gampws y Bae, sef adeilad wedi'i brydlesu i is-gwmni y mae'n berchen arno'n llwyr, Swansea Materials Resarch and Testing Ltd.

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cyfunol a'r Sefydliad | Tir ac adeiladau £m | Tir ac adeiladau £m |
| **Isafswm taliadau prydles dyledus yn y dyfodol** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | **0.3** | 0.4 |
| Hwyrach na blwyddyn ond heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | **1.0** | 1.1 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | **2.0** | 2.2 |
| **Cyfanswm taliadau prydlesi dyledus** | **3.3** | 3.7 |

Nid oedd rhenti digwyddiadol i'w derbyn yn ystod 2018/19 (2017/18: £0).

## 28 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Daeth masnachu gan y fenter ar y cyd Bay Sports Ltd i ben ar 5 Medi 2018, ac mae'r broses ddiddymu'n mynd rhagddi



## 29 GWEITHGAREDDAU IS-GWMNÏAU

**Mae gweithgareddau'r is-gwmnïau (sydd i gyd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr) sy'n eiddo i'r Brifysgol yn llwyr neu a reolir yn effeithiol ganddi fel a ganlyn:**

| Cwmni | Prif Weithgarwch | Gwlad cofrestru | Statws |
|---|---|---|---|
| Swansea Materials Research & Testing Limited | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| Swansea Innovations Limited | Gweithgareddau ymgynghori rheoli ac eithrio rheolaeth ariannol | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| Specific Innovations Limited | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| The Dylan Thomas Prize Limited | Addysg ddiwylliannol | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| Active Building Centre Ltd | Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| SU Developments Limited | Segur | Y DU | Perchnogaeth 100% |
| SU Pathway College Limited | Ddim yn Masnachu | Y DU | Perchnogaeth 100% |

Mae gan bob is-gwmni'r un diwedd blwyddyn â Phrifysgol Abertawe.

## 30 CYNLLUNIAU PENSIWN

Roedd gwahanol gategorïau o staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau canlynol:
Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS)
Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) – Caewyd i aelodau newydd ar 31 Rhagfyr 2011
Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) – o 1 Ionawr 2012

Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG ar gyfer nifer o'i gweithwyr.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig. Cedwir asedau'r ddau gynllun mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

### (i) (I) CYNLLUN BLWYDD-DAL Y PRIFYSGOLION

Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) yw'r prif gynllun sy'n cynnwys y rhan fwyaf o staff academaidd ac academaidd berthynol, sy'n darparu buddion ar sail cyflog pensiynadwy terfynol. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan yr ymddiriedolwr, Universities Superannuation Limited.

Oherwydd natur gilyddol y cynllun, ni chaiff asedau'r cynllun eu neilltuo i sefydliadau unigol, a phennir cyfradd gyfrannu ar gyfer y cynllun cyfan. Mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd, felly, sy'n gysylltiedig â gweithwyr sefydliadau eraill, ac nid yw'n gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol, ac felly, yn unol â FRS 102(28), mae'n cyfrifo am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

O ganlyniad, mae'r swm a nodir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn y cyfnod cyfrifyddu.

### POLISÏAU CYFRIFYDDU ARWYDDOCAOL

Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (y cynllun). Drwy gydol y cyfnodau cyfredol a blaenorol, roedd y cynllun yn gynllun pensiwn budd diffiniedig yn unig tan 31 Mawrth 2016 a gontractiwyd allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P). Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolaeth. Oherwydd natur gilyddol y cynllun, ni chaiff asedau'r cynllun eu neilltuo i sefydliadau unigol, a phennir cyfradd gyfrannu ar gyfer y cynllun cyfan. Mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwaraidd, felly, sy'n gysylltiedig â gweithwyr sefydliadau eraill, ac nid yw'n gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol, ac felly, yn unol ag Adran 28 FRS 102 "Buddion gweithwyr", mae'n cyfrifo am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r swm a nodir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn y cyfnod cyfrifyddu. Ers i'r sefydliad ymrwymo i gytundeb (y Cynllun Adfer sy'n pennu sut bydd pob cyflogwr yn y cynllun yn ariannu'r diffyg cyffredinol), mae'r sefydliad yn cydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg a'r gost ganlyniadol yn y cyfrif incwm a gwariant.

**30 PARHAD**

**BARNAU CYFRIFYDDU CRITIGOL**

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng Cynllun Grŵp a chynllun amlgyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredinol, fel arfer gyda chyflogwr yn noddi. Mae cynllun amlgyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredinol ac mae'n cynrychioli (fel arfer) cynllun diwydiant cyfan, megis USS. Mae'r cyfrifyddu yn achos cynllun amlgyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut y bydd y cyflogwr hwnnw yn ariannu diffyg yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) a chydnabyddir y costau o ganlyniad fel elw neu golled. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y cynllun a ddarperir gan USS yn bodloni diffiniad cynllun amlgyflogwr, felly mae wedi cydnabod gwerth teg ar ôl cymhwyso disgownt y cyfraniadau contractiol yn unol â'r cynllun ariannu sy'n bod ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**COSTAU PENSIWN**

Prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf y cynllun sydd ar gael yw'r un a wnaed at 31 Mawrth 2018 ("dyddiad y prisiad"), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau.

Am na all y sefydliad adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun, mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Prisiad 2017 oedd pedwerydd prisiad y cynllun USS o dan y drefn ariannu cynllun penodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004, sy'n gofyn bod cynlluniau'n mabwysiadu amcan ariannu statudol, sef cadw asedau digonol a phriodol i dalu eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £60.0 biliwn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £67.5 biliwn, gan nodi diffyg o £7.5 biliwn. Adolygir y ffigurau hyn pan fydd Prisiad 2018 y cynllun wedi'i gwblhau.

**Cynhyrchwyd ffigurau rhwymedigaeth budd diffiniedig ar gyfer y cynllun gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:**

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.44% | 2.64% |
| Cynnydd cyflogau pensiynadwy | ddim yn berthnasol | ddim yn berthnasol |
| Cynnydd mewn pensiynau (CPI) | 2.11% | 2.02% |

**Mae'r brif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddiwyd yn ymwneud â thybiaethau ynghylch marwolaeth. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gwblhawyd fel rhan o brisiad actiwaraidd 2017. Mae'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddiwyd yn y ffigurau hyn fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| **Marwolaeth aelodau gwrywaidd** | |
| Cyn ymddeol | 71% o AMC00 (hyd 0) |
| Ar ôl ymddeol | 96.5% o S1NMA ["ysgafn"] |
| **Marwolaeth aelodau benywaidd** | |
| Cyn ymddeol | 112% o AFC00 (hyd 0) |
| Ar ôl ymddeol | 101.3% o RFV00 |

**Mae defnyddio'r tablau marwolaethau hyn yn adlewyrchiad rhesymol o brofiad gwirioneddol USS. Er mwyn caniatáu ar gyfer gwelliannau pellach yn y cyfraddau marwolaeth mae CMI 2016 gyda pharamedr llyfnhau o 8.5 a chyfradd welliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn ar gyfer gwrywod ac 1.6% ar gyfer benywod. Dyma'r disgwyliad oes cyfredol wrth ymddeol yn 65 oed:**

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Gwrywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd | 24.6 | 24.5 |
| Menywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd | 26.1 | 26 |
| Gwrywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd | 26.6 | 26.5 |
| Menywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd | 27.9 | 27.8 |

| | 2019 | 2019 |
|---|---|---|
| Asedau'r cynllun | £60.0bn | £63.6bn |
| Cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun | £67.5bn | £72.0bn |
| Cyfanswm diffyg y cynllun yn ôl FRS 102 | £7.5bn | £8.4bn |
| Cyfanswm lefel ariannu FRS 102 | 89% | 88% |



**30 PARHAD**

Ers diwedd y flwyddyn, yn dilyn cwblhau prisiad actiwaraidd 2018, cytunwyd ar gynllun newydd i adennill y diffyg. Ar 31 Gorffennaf 2019, a chyda'r holl dybiaethau eraill a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ddarpariaeth heb newid, byddai hyn wedi arwain at ddarpariaeth ddiwygiedig o £49,421,000, gostyngiad o £39,257,000 o ddarpariaeth bresennol diwedd y flwyddyn.

**(ii) CYNLLUN PENSIWN PRIFYSGOL ABERTAWE**

**DATGELIAD (BUDDION YMDDEOL) AR GYER Y CYFNOD CYFRIFYDDU SY'N DOD I BEN AR 31 GORFFENNAF 2019**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig ar sail cyflog terfynol y gall gweithwyr anacademaidd gyfrannu ato, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Caiff y cynllun ei ariannu'n allanol ac mae wedi'i gontractio allan o ddarpariaeth pensiwn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd ffurfiol diwethaf y cynllun ar 1 Awst 2016 gan actwari cymwysedig proffesiynol.

Yn ystod y cyfnod cyfrifo, talodd y Brifysgol gyfraniadau i'r cynllun pensiwn ar gyfradd o 21.3% o gyflogau pensiynadwy.

**TYBIAETHAU**

**Dyma'r tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun yn unol â FRS102:**

| | Ar 31 Gorffennaf 2019 | Ar 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau (RPI) | 3.3% | 3.3% |
| Chwyddiant prisiau (CPI) | 2.5% | 2.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.2% | 3.2% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu i aelodau SUPS | 3.3% | 3.3% |
| Cynnydd mewn pensiynau a ohiriwyd cyn ymddeol | 2.5% | 2.5% |
| Cyfradd ddisgownt | 2.0% | 2.8% |

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd mewn asesiadau cyfrifyddu ar sail disgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd sy'n 65 oed ac aelodau nad ydynt yn bensiynwyr sy'n 45 oed ar hyn o bryd.

| | Ar 31 Gorffennaf 2019 | Ar 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|
| Pensiynwr - gwrywaidd | 19.7 | 20.0 |
| Pensiynwr - benywaidd | 21.5 | 21.9 |
| Gwrywod (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | 20.7 | 21.1 |
| Benywod (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | 22.7 | 23.1 |

## 30 PARHAD

### ASEDAU'R CYNLLUN A CHYFRADDAU ADENNILL DISGWYLIEDIG SUPS

Cyfrifwyd yr adenillion disgwyliedig ar asedau ar sail cyfartaledd wedi'i bwysoli'r adenillion disgwyliedig o bob un o'r prif ddosbarthiadau asedau (h.y. ecwitïau a bondiau). Mae adenillion disgwyliedig pob dosbarth ased yn adlewyrchu cyfuniad o ddadansoddi perfformiad hanesyddol, rhagolygon o'r marchnadoedd ariannol (fel yr awgrymir gan yr elw sydd ar gael) a barnau sefydliadau buddsoddi.

**Yr asedau yn y cynllun:**

| | Gwerth teg ar 31 Gorffennaf | | |
|---|---|---|---|
| | 2019 | 2018 | 2017 |
| | £m | £m | £m |
| Ecwitïau | 43.0 | 40.5 | 33.3 |
| Bondiau'r Llywodraeth | - | - | 22.1 |
| Bondiau Corfforaethol | 9.2 | 7.5 | 22.4 |
| Eiddo | 10.5 | 10.3 | 7.6 |
| CRONFA GARS | 13.6 | 13.1 | 11.0 |
| Arall | 30.4 | 27.8 | - |
| Cyfanswm | **106.7** | **99.2** | **96.4** |

Mae'r tabl isod yn cynnwys datgeliadau Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Dadansoddiad o'r swm a ddengys yn y fantolen ar gyfer SUPS** | | |
| Asedau'r cynllun | 106.7 | 99.2 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | 166.6 | 145.2 |
| **Diffyg yn y cynllun – rhwymedigaeth bensiwn net a gofnodwyd o dan incwm cynhwysfawr arall** | (59.9) | (46.0) |
| | | |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (2.3) | (2.3) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | - | - |
| **Cyfanswm y tâl gweithredu:** | (2.3) | (2.3) |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r swm a godir ar gyfer llog i'w dalu/a gredydir i incwm cyllid arall ar gyfer SUPS** | | |
| Cost llog | (4.0) | (4.0) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 2.8 | 2.7 |
| **Cost net i incwm cyllid arall** | (1.2) | (1.3) |
| | | |
| **Dadansoddiad o incwm cynhwysfawr arall ar gyfer SUPS** | | |
| Elw ar asedau | 6.20 | **1.30** |
| Colled ar rwymedigaethau | (19.2) | (0.7) |
| **Cyfanswm (treuliau) cynhwysfawr eraill cyn didynnu treth** | (13.0) | **0.6** |



## 30 PARHAD

### Hanes enillion a cholledion – SUPS

| | Y flwyddyn i | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Gorff 2019 | 31 Gorff 2018 | 31 Gorff 2017 | 31 Gorff 2016 |
| **Y gwahaniaeth rhwng adenillion gwirioneddol a disgwyliedig ar asedau'r cynllun:** | | | | |
| Swm (£m) | 6.2 | 1.3 | 4.6 | 8.2 |
| % o asedau ar ddiwedd y flwyddyn | 0.0% | 1.3% | 4.8% | 8.7% |
| **Profiad (Enillion) / Colledion ar rwymedigaethau'r cynllun:** | | | | |
| Swm (£m) | - | - | -8.9 | - |
| % o rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn | 0.0% | 0.0% | -6.2% | 0.0% |

| | 31 Gorffennaf 2019 | 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall ar gyfer SUPS** | | |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddechrau'r flwyddyn | (26.2) | (26.8) |
| Colledion actiwaraidd cronedig a gydnabyddir ar ddiwedd y flwyddyn | (39.2) | (26.2) |
| | | |
| **Dadansoddiad o'r newid mewn Gwarged/(Diffyg) ar gyfer SUPS** | | |
| **Diffyg ar ddechrau'r flwyddyn** | **(46.0)** | **(46.1)** |
| Cyfraniadau neu fuddion a dalwyd gan y Brifysgol | 3.5 | 3.5 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (2.3) | (2.3) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | (0.5) | - |
| Costau gweinyddol | (0.4) | (0.4) |
| Costau cyllid eraill | (1.2) | (1.3) |
| Colledion / Enillion a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall | (13.0) | 0.6 |
| **Diffyg ar ddiwedd y flwyddyn** | **(59.9)** | **(46.0)** |

| | 31 Gorffennaf 2019 | 31 Gorffennaf 2018 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Dadansoddiad o newid mewn gwerth teg SUPS** | | |
| **Gwerth presennol SUPS ar ddechrau'r flwyddyn** | **145.2** | **142.5** |
| Costau gwasanaeth cyfredol (net o gyfraniadau aelodau) | 2.3 | 2.3 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | 0.5 | - |
| Cost llog | 4.0 | 4.0 |
| Colled / (enillion) actiwaraidd | 19.2 | 0.7 |
| Taliadau buddion gwirioneddol | (4.6) | (4.3) |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau SUPS ar ddiwedd y flwyddyn** | **166.6** | **145.2** |

## 30 PARHAD

| | 31 Gorffennaf 2019 £m | 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun** | | |
| **Gwerth teg asedau ar ddechrau'r flwyddyn** | **99.2** | **96.4** |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 2.8 | 2.7 |
| Elw actiwaraidd ar asedau | 6.2 | 1.3 |
| Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Brifysgol | 3.5 | 3.5 |
| Treuliau ac eithrio buddsoddiadau | (0.4) | (0.4) |
| Taliadau buddion gwirioneddol | (4.6) | (4.3) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **106.7** | **99.2** |

Nid yw asedau SUPS yn cynnwys unrhyw un o offerynnau ariannol y Brifysgol ei hun, nac unrhyw eiddo y mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio.

| | 31 Gorffennaf 2019 £m | 31 Gorffennaf 2018 £m |
|---|---|---|
| **Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun** | | |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | 2.8 | 2.7 |
| Enillion Asedau | 6.2 | 1.3 |
| | **9.0** | **4.0** |

Amcangyfrifir mai £1.7m fydd cyfraniadau at SUPS ym mlwyddyn ariannol 2019-20 (2018-19 £1.7m) gan ragdybio cyfradd gyfrannu o 21.5% ynghyd â chyfraniad blynyddol sefydlog o £1.3m (2018-19 21% a £1.2m y flwyddyn)